# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** | **DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER 29 TACHWEDD 2023 am 10:00 o'r gloch** | **WEDNESDAY 29 NOVEMBER 2023 at 10:00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Shirley Cooke 01248 752514** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Non Dafydd, Carwyn Jones, Llio Angharad Owen, Dylan Rees, Alwen Pennant Watkin *(Is-Gadeirydd/Vice Chair)*

**Y Grŵp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O Jones

**Plaid Lafur Cymru / Wales Labour Party**

Keith Roberts *(Cadeirydd/Chair)*

**Annibynnwyr Môn / Anglesey Independents**

Jeff Evans, Aled M Jones

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023.

3 **CYFANSODDIAD Y CYNGOR** (Tudalennau 7 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

4 **POLISI INDEMNIADAU'R CYNGOR** (Tudalennau 59 - 70)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

5 **HYFFORDDIANT AELODAU** (Tudalennau 71 - 82)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Hyfforddiant Adnoddau Dynol.

6 **PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT AR GYFER 2024-2025** (Tudalennau 83 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Keith Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Non Dafydd, Carwyn E Jones, Gwilym O Jones, Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Democratiaeth<br>Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)<br>Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Hyfforddiant Adnoddau Dynol (AJ) (ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llio A Owen, Alwen P Watkin |

---

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfodydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol a chadarnhawyd eu bod yn gywir: -

- 22 Mawrth 2023
- 23 Mai 2023

**3. YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) er mwyn ceisio dod i gytundeb ynghylch ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (PGD) i gynnwys y ddarpariaeth ganlynol: -

"*Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cygnor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad ("y cynnig")".*

Dywedodd y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol), yn achos rhai materion sy'n debygol o arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae angen eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. Nid yw'n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Sir. Byddai ymestyn cylch gorchwyl y PGD yn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried newidiadau cyfansoddiadol mewn manylder; trafod opsiynau/manteision/anfanteision a chynnig

ei argymhellion cyn i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad. Byddai'r newid hefyd yn caniatáu i'r PGD ystyried ymgynghoriadau a llunio ymatebion iddynt.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Bod y PGD yn cytuno ar y newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor, fel y cânt eu cynnwys yn y cynnig a'u nodi yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.**
- **Bod y PGD yn argymell bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r cynnig a gynhwysir yn yr adroddiad.**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys argymhellion y PGD ei fod yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn ynghylch y cynnig a'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i newid o'r fath; a**
- **Wedi hynny, bod adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Cyngor llawn i gymeradwyo'r cynnig a'r newidiadau cyfansoddiadol y bydd rhaid eu gwneud o ganlyniad i ddiwygio/ychwanegu at gylch gorchwyl y PGD.**

## 4. ADRODDIADAU BLYNYDDOL AELODAU ETHOLEDIG

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth mewn ymateb i bryderon a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022 ynghylch y nifer isel o adroddiadau blynyddol a gyflwynwyd gan aelodau.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod trefniadau ar waith i godi ymwybyddiaeth ac annog aelodau newydd i gyflwyno a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar eu gwaith. Dywedodd nad oes gofyn statudol i aelodau gwblhau adroddiadau blynyddol ond mae'n cael ei ystyried yn arfer dda.

Nodwyd fod 25 adroddiad allan o 35 (70%) wedi cael eu cyflwyno hyd yma ar gyfer 2022/23, ac mae'n cymharu'n dda â'r sefyllfa mewn blynyddoedd a fu.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth ei fod yn bwriadu cymryd y camau canlynol er mwyn rhoi pob cyfle i aelodau ymateb: -

- Trafod gydag aelodau unigol ffyrdd o oresgyn unrhyw rwystrau a all fodoli mewn perthynas â chwblhau a chyhoeddi adroddiadau blynyddol.
- Trafod gyda Chynghorau Sir eraill ffyrdd o nodi arfer dda/gwersi er mwyn gwella nifer yr aelodau sy'n cwblhau adroddiadau blynyddol.
- Datblygu'r templed ar gyfer cwblhau adroddiadau i sicrhau ei fod yn hawdd ei ddefnyddio, a darparu fersiwn ddigidol o'r templed.

Canmolodd Aelodau'r Pwyllgor y cynnydd a welwyd hyd yma o ran nifer yr adroddiadau a gyflwynwyd. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynghylch enwi aelodau nad ydynt yn cyflwyno adroddiadau. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth nad oedd yn briodol enwi aelodau unigol yn yr adroddiad ond y byddai'n cysylltu ag Arweinyddion Grwpiau i rannu gwybodaeth berthnasol gyda nhw.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Y byddai'r Pennaeth Democratiaeth yn cysylltu ag Arweinyddion Grwpiau i ofyn iddynt drosglwyddo gwybodaeth am aelodau nad ydynt wedi cyflwyno adroddiadau blynyddol i aelodau o fewn pob Grŵp unigol.**
- **Ystyried cynnwys yr adroddiad a chytuno ar y camau gweithredu uchod, a gyflwynir ym mharagraff 10 yr adroddiad, gyda newidiadau.**

## 5. DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol ar y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau Etholedig.

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddiant AD fod y Strategaeth Datblygu Aelodau yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynorthwyo aelodau i baratoi a chyhoeddi adolygiadau blynyddol o'u hanghenion hyfforddiant. Dywedodd fod trefniadau ar waith ar gyfer Cynllun Hyfforddi 2023/24. Ymgynghorwyd ar y Cynllun Drafft gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a Phenaethiaid Gwasanaeth a'u gwahodd i gyflwyno unrhyw anghenion datblygu a hyfforddi posib ar gyfer aelodau.

Nodwyd y bydd Arweinyddion Grwpiau, o fis Gorffennaf ymlaen, yn derbyn adroddiadau bob chwarter a fydd yn cynnwys manylion am bresenoldeb aelodau mewn sesiynau hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a fydd yn cael ei fonitro. Yn ogystal â'r Cynllun Hyfforddi, cyhoeddwyd a dosbarthwyd Bwletinau ar gyfer Aelodau Etholedig sy'n cynnwys gwybodaeth gryno am yr hyfforddiant sydd ar gael ar y Gronfa Ddysgu. Erbyn hyn mae'r modiwlau E-Ddysgu yn cynnwys Iechyd a Llesiant a modiwlau cyffredinol, yn ogystal â modiwlau penodol ar gyfer rolau aelodau.

Nodwyd y bydd cynnal mwy o sesiynau hyfforddi hybrid/wyneb yn wyneb yn cael ei ystyried yn awr. Ychwanegwyd fod amseriad yr hyfforddiant yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn cynnig hyblygrwydd ac ymateb i anghenion unigolion sy'n gweithio neu sydd ag ymrwymiadau fel gofalwyr. Anogir aelodau hefyd i gwblhau ffurflenni adborth ar ddiwedd sesiynau hyfforddi er mwyn amlygu unrhyw anghenion am hyfforddiant pellach.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi cynnwys yr adroddiad a'r Cynllun Hyfforddi ar gyfer 2023/24.**
- **Hysbysu aelodau y caiff adroddiadau diweddaru chwarterol ar hyfforddiant aelodau eu cyflwyno i Arweinyddion Grwpiau o fis Gorffennaf. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn gohebiaeth pan rennir y Cynllun Hyfforddi gydag aelodau.**

Dywedodd y Rheolwr Hyfforddi AD mai hwn oedd ei chyfarfod olaf o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a diolchodd y Pwyllgor am ei gefnogaeth yn ystod y 25 mlynedd diwethaf. Ar ran y Pwyllgor, dymunodd y Cadeirydd ymddeoliad hir a hapus iddi.

## 6. PROTOCOL DRAFFT AR WEITHIO'N HYBRID AR GYFER AELODAU

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth ar y Protocol ar gyfer cynnal cyfarfodydd o'r Cyngor a phwyllgorau gydag aelodau'n mynychu o bell ac mewn person.

Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod y Cyngor, ar hyn o bryd, yn adolygu ei "Brotocol ar gyfer cynnal Cyfarfodydd Cyngor/Pwyllgor Hybrid" a "Canllawiau mynychu cyfarfodydd o bell i Aelodau" er mwyn diweddaru gwybodaeth a chyfuno'r ddwy ddogfen mewn un. Dywedodd ei bod yn bwysig atgoffa aelodau o'r hyn a ddisgwylir ganddynt pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd o bell, a'r egwyddor y dylai cyfarfodydd hybrid neu gyfarfodydd o bell gael eu cynnal mor broffesiynol â chyfarfodydd a gynhelir mewn un lleoliad.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y posibilrwydd o fabwysiadu'r model gweithio'n hybrid newydd ar gyfer Panelau Sgriwtini, yn hytrach na chynnal cyfarfodydd rhithwir. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth fod pob cyfarfod Pwyllgor ffurfiol yn cael ei gynnal yn hybrid ac nad oes capasiti i ymestyn y trefniant hwn ar hyn o bryd. Dywedodd fod y Calendr Cyfarfodydd wedi cael ei ystyried, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal o ddydd Mawrth i ddydd Iau. Nodwyd y bydd y trefniadau presennol yn cael eu hadolygu'n gynnar yn 2024.

Cyfeiriwyd hefyd at baragraff 3.9 yn y Protocol sy'n datgan y dylai aelodau sicrhau fod eu camerâu yn cael cadw ymlaen yn ystod cyfarfodydd. Nodwyd fod rhai aelodau'n diffodd eu camerâu mewn cyfarfodydd. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y dylai aelodau gysylltu â swyddogion sy'n bresennol os oes angen iddynt ddiffodd eu camerâu neu adael am gyfnod byr a gall y Cadeirydd ategu hyn hefyd er mwyn cryfhau'r trefniant hwn. Nodwyd hefyd fod y Protocol yn berthnasol yn bennaf i aelodau sy'n pleidleisio a swyddogion, yn hytrach nag aelodau sy'n mynychu i wrando ar gyfarfodydd.

Mynegwyd pryderon fod delweddau aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd hybrid mewn person yn ymddangos yn llai ar y gweddarllediad na delweddau aelodau sy'n mynychu o bell. Dywedodd y Pennaeth Democratiaeth y byddai'n rhaid, yn ôl pob tebyg, dalu costau ychwanegol i Public-i er mwyn newid y dull hwn o weddarlledu, ond nid yw hynny'n bosib ar hyn o bryd.

**PENDERFYNWYD: -**

- **Nodi'r sylwadau uchod gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r Protocol drafft.**
- **Argymell fod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r Protocol Drafft maes o law.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3:05 pm

**Y CYNGHORYDD KEITH ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **29 Tachwedd, 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cyfansoddiad y Cyngor** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Gwneud argymhellion i'r Cyngor llawn** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Lynnball@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Lynnball@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn gofyn i bob prif gyngor fabwysiadu a chynnal cyfansoddiad, sy'n disgrifio eu strwythurau, prosesau a'u rhaniad cyfrifoldebau.

Mabwysiadwyd ein Cyfansoddiad yn 2001, ac mae wedi'i ddiweddaru a'i adolygu'n rheolaidd er mwyn rhoi ystyriaeth i ofynion cyfreithiol gwahanol neu drefniadau lleol newydd.

Cafodd y Cyfansoddiad ei ddiweddaru ddiwethaf ar 27/10/2023.

Mae pob cyfansoddiad yn cynnwys elfennau sy'n cael eu sefydlu gan ddeddfwriaeth, ac elfennau sy'n destun dewis lleol, megis nifer, aelodaeth a chylch gorchwyl ein pwyllgorau, neu'r strwythur rheoli ar gyfer ein huwch swyddogion.

Er mwyn cefnogi prif gynghorau i baratoi eu cyfansoddiadau, cyhoeddwyd Cyfansoddiad Model gan Lywodraeth Cymru yn 2001.

Darparodd Lywodraeth Cymru gyllid i CLlLC yn ddiweddar er mwyn comisiynu Cyfansoddiad Model newydd). Comisiynodd CLlLC y gwaith hwn i Browne Jacobson LLP ("BJ"). Cafodd cyfansoddiad model newydd ei greu yn rhannol er mwyn sicrhau bod cyfansoddiadau presennol yn gyfredol, yn ogystal â symleiddio'r iaith (Cymraeg Clir / Plain English), trefn a rhifo'r dogfennau, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu'i ddeall yn haws.

## 2. PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae’n rhaid i’r Cyngor llawn gymeradwyo pob newid materol i’n Cyfansoddiad.

Fodd bynnag, gan amlaf mae angen ystyriaeth mwy trylwyr ac i’r perwyl hwn, cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ei newid yn ddiweddar er mwyn galluogi’r Pwyllgor i wneud argymhellion i’r Cyngor pan fydd mwy nag un opsiwn ar gael.

I’r perwyl hwn, gofynnir i chi ystyried y ddau atodiad sydd ynghlwm â’r Adroddiad hwn.
Mae **Atodiad 1** yn fersiwn drafft o Adrannau 1 – 4 y Cyfansoddiad newydd arfaethedig, ac mae **Atodiad 2** yn tynnu sylw at y gwahaniaethau materol rhwng ein trefniadau presennol a’r cynigion ar gyfer newid. Bydd angen ystyried pob newid sydd wedi’i gynnig yn unigol, ac mae’r rheiny sydd fwyaf tebygol o arwain at drafodaethau helaeth wedi’u nodi yn y bocsys coch.

Bwriedir i’r rhaniad nesaf o newidiadau gael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod nesaf ar 20/03/2023.

Pan fydd y Pwyllgor wedi cwblhau’r gwaith hwn, cyflwynir un drafft newydd i’r Cyngor am gymeradwyaeth.

## 3. ARGYMHELLION

Gofynnir i’r Pwyllgor:-

1. Gefnogi, mewn egwyddor, y gwaith o adolygu/adnewyddu Cyfansoddiad y Cyngor fel ei fod yn cyd-fynd â’r Model cenedlaethol newydd.

2. Cadarnhau bod y Pwyllgor yn fodlon gydag arddull/iaith/trefn/rhifo’r ddogfen drafft newydd yn **Atodiad 1.**

3. Gwneud argymhellion i’r Cyngor llawn mewn perthynas â phob un o’r 25 newid arfaethedig a gyflwynir yn **Atodiad 2.**

# ATODIAD 1

## CYNNWYS

**ADRAN 1**......................................................................................................................

**1. Cyflwyniad**......................................................................................................................

1.1 Diben a Chynnwys y Cyfansoddiad ..................................................................................

1.2 Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu ..................................................................................

**ADRAN 2**......................................................................................................................

**2. Diben, Diffiniadau, Dehongliad a Diwygio'r Cyfansoddiad**..............................................

2.1 Diben y Cyfansoddiad ..................................................................................

2.2 Diffiniadau yn y Cyfansoddiad ..................................................................................

2.3 Dehongliad y Cyfansoddiad..................................................................................

2.4 Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad ..................................................................

2.5 Protocol ar gyfer Monitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad gan y Swyddog Monitro .................

2.6 Newidiadau i'r Cyfansoddiad ..................................................................................

2.7 Atal y Cyfansoddiad ..................................................................................

2.8 Cyhoeddi ..................................................................................

**ADRAN 3**......................................................................................................................

**3. Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan**......................................................................

3.1 Cael Gwybodaeth..................................................................................

3.2 Cymryd Rhan ..................................................................................

3.3 Cymryd Rhan – Aelodau ..................................................................................

**ADRAN 4**......................................................................................................................

**4. Y Cyngor Llawn**......................................................................................................................

4.1 Cyflwyniad ..................................................................................

4.2 Y Fframwaith Polisi ..................................................................................

4.3 Y Cynllun Integredig Sengl ..................................................................................

4.4 Y Gyllideb ..................................................................................

4.5 Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai..................................................................................

4.6 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn ..................................................................................

4.7 Aelodaeth ..................................................................................

4.8 Cyfarfodydd y Cyngor ....................................................................................

4.9 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod.......................................................................

4.10 Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor - Cyfarfod Blynyddol y Cyngor .....................................

4.11 Cyfarfodydd Cyffredin....................................................

4.12 Cyfarfodydd Arbennig.........................................................................................

4.13 Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd ....................................................................

4.14 Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs iddynt ..........................................................

4.15 Cadeirio'r Cyfarfod ...............................................................................................

4.16 Cworwm.................................................................................................................

4.17 Presenoldeb o Bell ...............................................................................................

4.18 Cwestiynau gan y Cyhoedd...................................................................................

4.19 Cwestiynau gan Aelodau.......................................................................................

4.20 Cynigion y Rhoddir Rhybudd ohonynt ..................................................................

4.21 Cynigion Heb Rybudd ...........................................................................................

4.22 Rheolau Trafod .....................................................................................................

4.23 Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir .........................................................................

4.24 Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol.................................................................

4.25 Pleidleisio.............................................................................................................

4.26 Cofnodion.............................................................................................................

4.27 Cofnod o Bresenoldeb...........................................................................................

4.28 Gwahardd y Cyhoedd............................................................................................

4.29 Ymddygiad Cynghorwyr ........................................................................................

4.30 Aflonyddwch gan y Cyhoedd.................................................................................

4.31 Ffilmio a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd

4.32 Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefn y Cyngor ....................................................

4.33 Cais i Bwyllgorau ac Is-bwyllgorau .......................................................................

4.34 Penodi Dirprwyon ar Gyrff y Cyngor.....................................................................

**ADRAN 1**

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 **Diben a Chynnwys y Cyfansoddiad**

1.1.1 Mae'r Cyfansoddiad yn disgrifio'r amryw gyrff sy'n rhan o'r Cyngor, eu swyddogaethau, eu haelodaeth a'u rheolau gweithdrefnol.

1.1.2 Yn Adran 3 (Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan), rydym wedi darparu gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd a chynghorwyr ynglŷn â sut y gallwch gael gwybodaeth am y Cyngor, a sut y gallwch gymryd rhan. Gobeithiwn y bydd hyn yn helpu pobl sydd â diddordeb yng ngwaith y Cyngor, neu mewn mater penodol y mae'n ymdrin ag ef, i ddeall ble y gallant gael mwy o wybodaeth, a sut y gallant gyfrannu at weithgareddau'r Cyngor.

1.1.3 Gallwch gael gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae pob un o gyrff y Cyngor yn ei wneud yn Adrannau 4 i 10 y Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys y Cyngor Llawn, y Cabinet, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, y Pwyllgor Safonau a Phwyllgorau Rheoleiddio. Mae Adran 12 yn darparu gwybodaeth am strwythurau rheoli a strwythurau Swyddogion y Cyngor. Mae gan rai Swyddogion ddyletswydd benodol i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio adnoddau'n ddoeth. Mae Adran 14, sef cyfrifoldeb am swyddogaethau, yn amlinellu pa rai o gyrff y Cyngor, a pha Swyddogion, sydd â'r awdurdod i wneud pa benderfyniadau.

1.1.4 Mae'r rheolau gweithdrefnol sy'n berthnasol i wahanol gyrff y Cyngor wedi'u cynnwys yn yr adrannau sy'n ymwneud â'r cyrff hynny, e.e. y Cyngor Llawn (Adran 4), [y Cabinet] [y ] (Adran 5) a Sgriwtini (Adran 7). Gallai'r rhain fod yn ddefnyddiol i chi os hoffech fynychu cyfarfod, yn enwedig os byddwch yn dymuno siarad mewn cyfarfod.

1.1.5 Mae Adrannau 19 i 21 yn cynnwys y Codau Ymddygiad a'r Protocolau y mae Swyddogion ac Aelodau wedi cytuno i gydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn pennu safonau ymddygiad.

1.1.6 Mae'r tudalennau Cynnwys ar ddechrau'r Cyfansoddiad hwn yn rhoi arweiniad ar yr hyn sydd yn y Cyfansoddiad a ble y gallwch ddod o hyd iddo.

1.2 **Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu**

1.2.1 Mae'r Cyngor yn cynnwys 35 o Gynghorwyr a etholir bob pum blynedd. Mae pob Cynghorydd yn atebol yn ddemocrataidd i drigolion eu hadran etholiadol yn ogystal â chyfrifoldeb ar y cyd am bawb sy'n byw yn Ynys Môn. Prif ddyletswydd Cynghorwyr yw gwasanaethu'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai hynny na phleidleisiodd drostynt.

1.2.2 Mae pob Cynghorydd wedi cytuno i ddilyn Cod Ymddygiad, er mwyn sicrhau safonau uchel yn y ffordd y maent yn ymgymryd â'u dyletswyddau. Y Pwyllgor Safonau sy'n gyfrifol am hyfforddi a chynghori ar y Cod Ymddygiad.

1.2.3 Mae'r holl Gynghorwyr yn cyfarfod â'i gilydd yn rheolaidd fel y Cyngor llawn. Mae cyfarfodydd y Cyngor ar agor i'r cyhoedd fel arfer. Yma, mae Cynghorwyr yn penderfynu ar Fframwaith Polisi cyffredinol y Cyngor (y polisiau pennaf sy'n arwain strategaeth y Cyngor) ac yn gosod y Gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y



DRAFT

Cyngor am dymor y Cyngor. Yna mae’r Arweinydd yn penderfynu ar aelodaeth y Cabinet, am gyfrifoldebau pob aelod o’r Cabinet yn ogystal ag unrhyw dreniadau ar gyfer arfer a dirprwyo swydogaethau’r Cabinet.

1.2.4 Penodir y Cabinet i gyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny yn ôl y gyfraith neu o dan y Cyfansoddiad hwn, ar yr amod bod penderfyniadau'r Cabinet o fewn y Fframwaith Cyllideb a Pholisi a bennir gan y Cyngor llawn.

1.2.5 Mae'r Cyngor yn gweithredu dau bwyllgor sgriwtini, sy'n adolygu perfformiad y Cyngor a phartneriaid allanol, yn ogystal â chynnig cyngor ynghylch rhai o benderfyniadau arfaethedig y Cabinet a/neu benderfyniadau heriol a wneir gan y Cabinet.

1.2.6 Mae pwyllgorau eraill y Cyngor (a elwir weithiau yn bwyllgorau rheoleiddiol) yn gwneud penderfyniadau mewn meysydd arbenigedd penodol fel cynllunio neu drwyddedu; neu’n cyflawni swyddogaethau a nodir mewn statud; fel y Pwyllgor Safonau neu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.2.7 Mae gan y Cyngor bobl sy'n gweithio iddo, y cyfeirir atynt fel 'swyddogion', i roi cyngor, gweithredu penderfyniadau a rheoli'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd

Gall fod yn ddefnyddiol i chi ddarllen y Cyfansoddiad hwn ar y cyd â Chanllaw y Cyfansoddiad, sydd ar gael [*mewnosodwch hyperddolen neu wybodaeth arall am sut i gael copi o Ganllaw y Cyfansoddiad*].

DRAFT

**ADRAN 2**

## 2. DIBEN, DIFFINIADAU, DEHONGLIAD A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

### 2.1 Diben y Cyfansoddiad

Diben y Cyfansoddiad yw:

2.1.1 galluogi'r Cyngor i roi arweinyddiaeth eglur i'r Gymuned mewn partneriaeth â dinasyddion, busnesau a sefydliadau eraill;

2.1.2 cefnogi dinasyddion i gymryd rhan weithredol yn y broses gwneud penderfyniadau yn yr awdurdod lleol;

2.1.3 helpu Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;

2.1.4 sicrhau bod modd gwneud penderfyniadau'n effeithlon ac yn effeithiol;

2.1.5 creu dull grymus ac effeithiol o ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif yn gyhoeddus;

2.1.6 sicrhau na fydd neb yn craffu ar benderfyniad a wnaed ganddynt neu y maent wedi dylanwadu arno;

2.1.7 sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn adnabyddus i bobl leol a'u bod yn esbonio'r rhesymau dros benderfyniadau; a

2.1.8 chynnig modd o wella'r ffordd y darperir gwasanaethau i'r gymunedy.

### 2.2 Diffiniadau yn y Cyfansoddiad

2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yw'r ddogfen hon (Adrannau 1 i 24).

2.2.2 Yn y Cyfansoddiad, mae ystyr y geiriau a'r ymadroddion canlynol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| "Cyllideb" | y gyllideb refeniw gyffredinol (gwariant parhaus) a chyfalaf (prosiectau unigol) a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn bob blwyddyn (Adran 4); |
| "Prif Weithredwr" | swyddog y mae'n rhaid iddo gael ei benodi yn ôl y gyfraith i ymgymryd â swyddogaethau penodol. Gweler Adran 12 am ragor o fanylion. |
| "Prif Swyddog" | unrhyw Swyddog (heblaw am unigolyn y mae ei ddyletswyddau'n ysgrifenyddol neu'n weinyddol yn unig neu y mae ei ddyletswyddau fel arall o natur gwasanaethau cymorth) sy'n:<br>• adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr o ran ei holl ddyletswyddau neu'r rhan fwyaf o'i ddyletswyddau; neu<br>• y mae'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol gyfrifol amdano; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Canllaw'r Cyfansoddiad" | dogfen sy'n egluro, mewn iaith glir, gynnwys y Cyfansoddiad hwn. |
| Aelod Cyfetholedig | person a benodir gan y Cyngor i wasanaethu ar un o'r Cyrff y mae'n Aelod ohono; weithiau a ddewisir gan y Cyngor drwy broses ddethol gyhoeddus ac weithiau a enwebir gan y sefydliadau hynny y maent yn eu cynrychioli;  er enghraifft, llywodraethwyr ysgol / cynghorwyr cymuned. |
| "Cyd-bwyllgor Corfforedig" | yn cynnwys prif gynghorau penodedig yng Nghymru,  er mwyn cyflawni a chynllunio'n strategol ar raddfa ranbarthol. Gweler adran 11 am fanylion y Cyd- bwyllgor Corfforedig y mae'r Cyngor yn aelod ohono, a'r swyddogaethau y bydd y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn eu cyflawni. |
| "Tîm Arweinyddiaeth" | yr uwch gorff rheoli o Gyfarwyddwyr (Adran 12). Mae'n cynnwys y swyddogion hynny a ddynodir gan y Cyngor o bryd i'w gilydd fel aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth; |
| "Y Cyngor" | Cyngor Sir Ynys Môn |
| "Cynghorydd" | unigolyn a etholir i'r Cyngor i gynrychioli ardal (a elwir yn adran etholiadol neu ward) o fewn Ynys Môn; |
| "Cynghorwyr" | y 35 cynghorydd a etholir i'r Cyngor |
| "Deddfwriaeth Diogelu Data" | Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) a phob deddf arall sy'n ymwneud â defnyddio, gwarchod a phreifatrwydd data personol |
| "Cabinet" | prif gorff gwneud penderfyniadau gwleidyddol y Cyngor a benodwyd gan Arweinydd y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Gydag awdurdod yr Arweinydd, gall aelodau unigol o'r Cabinet wneud penderfyniadau o fewn meysydd cyfrifoldeb a ddynodwyd iddynt gan yr Arweinydd. Ni all y Cabinet gynnwys mwy na 10 cynghorydd, gan gynnwys yr Arweinydd; |
| "Penderfyniad Gweithredol" | unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cabinet i arfer neu ymatal rhag arfer Swyddogaeth Weithredol. Mae hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wneir gan yr Arweinydd, neu aelod/au'r Cabinet, yn ogystal ag unrhyw benderfyniad/au o'r fath a ddirprwyir i swyddog gan yr Arweinydd neu aelod o'r Cabinet; |
| "Swyddogaeth Weithredol" | (a) Diffinnir Swyddogaethau Gweithredol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, is- ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig. Mae unrhyw swyddogaeth na ellir ei harfer gan y Cyngor llawn neu a ddirprwywyd i bwyllgor, neu swyddog, yn Swyddogaeth Weithredol. |

DRAFT

(b) Mae rhai materion cytundebol, caffael a gwaredu tir a chymorth ariannol i sefydliadau ac unigolion yn Swyddogaethau Gweithredol hefyd; cyn belled bod y penderfyniadau hynny'n cydymffurfio â'r Fframwaith Polisi Cyffredinol a'r Gyllideb a bennwyd gan y Cyngor llawn.

Dylid nodi bod rhai swyddogaethau rheoleiddio wedi'u heithrio'n benodol gan y gyfraith rhag bod yn Swyddogaethau Gweithredol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio, trwyddedu a rheoli adeiladu; a phenodi/diswyddo swyddogion

| | |
|---|---|
| "Blaenraglen Waith" | dogfen yw'r Flaenraglen Waith sy'n rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Cyngor a'r Cabinet yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Cabinet yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid i'r Cyngor llawn eu gwneud. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y Blaenraglen Waith yn atal materion brys neu annisgwyl rhag cael eu hystyried; |
| "Cyngor Llawn" | y corff lle y mae pob cynghorydd yn gweithredu i arfer swyddogaethau'r Cyngor; |
| "Swyddogaethau Dewis Lleol" | mae rhai swyddogaethau / cyfrifoldebau y caiff y Cyngor eu trin fel petaent yn gyfrifoldeb y Cabinet neu fel materion i'r Cyngor llawn. Mae'r rhain yn fater o ddewis lleol; |
| "Aelod" | naill ai cynghorydd neu aelod cyfetholedig a ddewiswyd/benodwyd gan y Cyngor i wasanaethu ar un o'i Gyrff Aelodaeth a elwir yn "Aelod Cyfetholedig" a; |
| "Corff Aelodaeth" | unrhyw un o'r canlynol: |

- Y Cyngor Llawn;
- Y Cabinet;
- Pwyllgorau Sgriwtini;
- Y Pwyllgor Apeliadau;
- Y Pwyllgor Penodiadau;
- Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;
- Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Y Pwyllgor Trwyddedu;
- Y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion;
- Y Pwyllgor Safonau



DRAFT

| | |
|---|---|
| | Sylwer bod cyfeiriadau at Bwyllgor yn cynnwys Is-bwyllgor hefyd; |
| "Swyddog Monitro" | swyddog y mae'n rhaid ei benodi o dan y gyfraith i gyflawni swyddogaethau penodol. Gweler Adran 12 am ddisgrifiad o'r swyddogaethau hynny. Bydd gan y Swyddog hwn ddyletswyddau eraill a theitl swydd gwahanol hefyd fel arfer. Gweler Adran 12 i gael gwybod pa Swyddog yw'r Swyddog Monitro; |
| "Swyddogaethau Anweithredol" | unrhyw swyddogaeth y gellir ei harfer gan y Cyngor Llawn yn unig (boed hynny trwy ddewis lleol neu fel mater o gyfraith) neu a ddirprwyir i gorff Aelodaeth heblaw am y Cabinet neu a ddirprwyir gan Gyngor llawn i swyddogion; |
| "Swyddog" | Aelod o staff a gyflogir gan y Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau. |
| "Cynllun Deiseb" | cynllun a baratoir ac a gyhoeddir yn unol ag adran 42 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (ac a adolygir o bryd i'w gilydd) at ddiben nodi: -<br>• sut y gellir cyflwyno deiseb i'r Cyngor;<br>• sut a phryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb;<br>• y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd wrth ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd ganddo;<br>• yr amgylchiadau (os o gwbl) lle na chaiff y Cyngor gymryd camau pellach mewn ymateb i ddeiseb; a<br>• sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn sicrhau bod ei ymateb i ddeiseb ar gael i'r sawl a gyflwynodd y ddeiseb ac i'r cyhoedd. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Cais Cynllunio" | unrhyw un o'r canlynol: |

- cais am ganiatâd cynllunio (gan gynnwys adnewyddu);
- cais am gymeradwyo materion neilltuedig;
- cais am ganiatâd adeilad rhestredig;
- cais yn ymwneud â choed;

  cynnig i gyflwyno hysbysiad am waith brys neu i gaffael adeiladrhestredig y mae angen ei atgyweirio;
- cais am ganiatâd ardal gadwraeth;
- cais am ganiatâd hysbysebu;
- cais i amrywio neu ddileu amodau sydd ynghlwm wrth amod cynllunio;

DRAFFT

| | |
|---|---|
| "Fframwaith Polisi" | Gweler Adran 4.2; |
| "Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus" | y bwrdd gwasanaeth cyhoeddus a sefydlir ar gyfer ardal awdurdod lleol y Cyngor o dan Ran 4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; |
| "Swyddog Adran 151 | swyddog y mae'n rhaid iddo gael ei benodi dan y gyfraith i gyflawni rhai swyddogaethau mewn perthynas â gweinyddu ariannol. Gweler Adran 12 i gael disgrifiad o'r swyddogaethau hynny. Fel arfer, bydd gan y swyddog ddyletswyddau eraill a theitl swydd gwahanol. Gweler Adran 12 i gael gwybod pa swyddog yw'r Swyddog Adran 151; |
| "Gwasanaeth" | un o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor; |
| " Cynllun Llesiant" | dyma'r cynllun a baratoir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol, ar ôl gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill i asesu llesiant yr ardal, gyda'r nod o wella cymunedau |

2.3 **<u>Dehongli'r Cyfansoddiad</u>**

2.3.1 Rydym wedi ceisio sicrhau bod y Cyfansoddiad mor eglur â phosibl. Fodd bynnag, mae'n anorfod y bydd gan bobl farn wahanol ynglŷn ag ystyr rhai darnau.

2.3.2 Yn ystod cyfarfodydd, bydd yr unigolyn sy'n cadeirio'r cyfarfod yn dehongli'r rheolau gweithdrefnol perthnasol.

2.3.3 Ym mhob sefyllfa arall, bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu ar y modd y dehonglir ac y gweithredir y Cyfansoddiad.

2.4 **<u>Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad</u>**

Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac adolygu'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu'n barhaus y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a amlinellir yn Adran 17 y Cyfansoddiad a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a amlinellir yn Adran 18 y Cyfansoddiad a bydd yn gwneud unrhyw newidiadau a diwygiadau angenrheidiol fel y bo'r angen o bryd i'w gilydd. Bydd Swyddog Adran 151 yn adrodd am unrhyw ddiwygiadau a wnaed i Adran 17 ac 18 yng nghyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn eu cofnodi.

2.5 **<u>Protocol ar gyfer Monitro ac Adolygu'r Cyfansoddiad gan y Swyddog Monitro</u>**

Un o rolau allweddol y Swyddog Monitro yw gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd y gellid diwygio'r Cyfansoddiad er mwyn cyflawni'r dibenion a amlinellir yn yr Adran hon yn well. Wrth ymgymryd â'r dasg hon, gallai'r Swyddog Monitro:

2.5.1 arsylwi cyfarfodydd gwahanol rannau o'r strwythur Aelodau a swyddogion;

2.5.2 ymgymryd â thrywydd archwilio o sampl o benderfyniadau;

2.5.3 cofnodi a dadansoddi materion a godwyd gydag ef/hi gan aelodau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill perthnasol; a

2.5.4 chymharu arferion yn y Cyngor hwn â'r rhai hynny mewn awdurdodau tebyg, neu



DRAFT

enghreifftiau cenedlaethol o arfer gorau.

2.6 **Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

2.6.1 Cymeradwyo

Yn amodol ar baragraffau 2.6.2 a 2.6.3 isod, bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn dim ond ar ôl ystyried cynnig gan y Swyddog Monitro neu yn unol ag argymhelliad gan y Cabinet neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2.6.2 Mân Newidiadau

Os, ym marn resymol y Swyddog Monitro, yw'r newid yn:

(a) fân amrywiad; neu'n
(b) ofynnol er mwyn dileu unrhyw anghysondeb, amwysedd, neu er mwyn gwneud cywiriad argraffyddol; neu'n
(c) ofynnol er mwyn gweithredu unrhyw benderfyniad gan y Cyngor neu ei bwyllgorau neu'r Cabinet,

yna caiff y Swyddog Monitro wneud newid o'r fath. Bydd unrhyw newid o'r fath a wnaed gan y Swyddog Monitro yn dod i rym ar unwaith. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn er gwybodaeth.

2.6.3 Newid Deddfwriaethol

Caiff y Swyddog Monitro ddiwygio unrhyw ran o'r Cyfansoddiad lle y mae diwygiad o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol ac nad oes dewis lleol. Bydd diwygiadau o'r fath yn dod i rym pan fydd y Swyddog Monitro yn penderfynu felly neu pan fydd y ddeddfwriaeth (lle y bo'n berthnasol) yn darparu ar gyfer hynny. Bydd newidiadau statudol sy'n ymwneud â dewis lleol (mwy nag un opsiwn) yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a fydd yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor.

2.7 **Atal y Cyfansoddiad**

2.7.1 Cyfyngiad ar Atal

Caiff unrhyw un o'r rheolau gweithdrefnol sydd yn y Cyfansoddiad gael eu hatal i'r graddau a ganiateir yn y rheolau hyn a'r gyfraith.

2.7.2 Y Weithdrefn ar gyfer Atal

Ni fydd cynnig i atal unrhyw Reol/au yn cael ei dderbyn heb rybudd oni bai bod o leiaf hanner yr holl gynghorwyr yn bresennol. Bydd graddau a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad sydd i'w gyflawni, gan ystyried dibenion y Cyfansoddiad a amlinellir yn yr Adran hon.

2.8 **Cyhoeddi**

2.8.1 Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod copïau o'r Cyfansoddiad hwn ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor.

2.8.2 Bydd y Swyddog Monitro yn sicrhau bod copïau o Ganllaw'r Cyfansoddiad ar gael i'w



DRAFT

gweld yn swyddfeydd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor.

2.8.3 Bydd y Swyddog Monitro yn darparu dolen at y Cyfansoddiad hwn i bob cynghorydd ar ôl iddo ef/iddi hi dderbyn datganiad o dderbyn swydd cynghorydd pan gaiff ei (h)ethol gyntaf i'r Cyngor ac, wedi hynny, bydd yn sicrhau bod fersiwn ddiweddar ar gael i'w harchwilio ac yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor2.6.

2.9 **Cyflwyniad**

2.9.1 O ganlyniad i unrhyw newidiadau a wneir yn unol â pharagraff 2.6, gellir dileu rhai paragraffau o'r Cyfansoddiad. Er y bydd y testun yn cael ei dynnu o'r Cyfansoddiad cyhoeddedig, cedwir y rhifau er mwyn sicrhau parhad y rhifo ar gyfer gweddill y ddogfen. Mae hyn yn esbonio ymddangosiad y gair "dilëwyd" mewn rhai mannau yn y Cyfansoddiad hwn.

DRAFFT

**ADRAN 3**

## 3 CAEL GWYBODAETH A CHYMRYD RHAN

### 3.1 Cael Gwybodaeth

3.1.1 Gwybodaeth a fydd ar gael i'r Cyhoedd

(a) *Pryd y Cynhelir Cyfarfodydd y Cyrff y mae'n Aelod ohonynt*

Mae rhaglen o gyfarfodydd ar gael trwy gysylltu â'r Cyngor trwy Cyswllt Môn neu drwy'r wefan.

(b) *Blaenraglen Waith*

Mae'r Flaenraglen Waith yn dangos pa benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud gan y Cabinet neu'r Cyngor a pha faterion y bydd y pwyllgorau sgriwtini yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod.

(c) *Gwybodaeth a fydd ar gael Cyn Cyfarfod*

O leiaf 3 diwrnod gwaith cyn cyfarfod, bydd yr agenda, unrhyw adroddiad sy'n debygol o gael ei drafod a phapurau cefndir yr adroddiad hwnnw ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd y Cyngor ac ar y wefan. Os ychwanegir eitem i'r agenda yn ddiweddarach, bydd yr agenda diwygiedig ar gael i'w harchwilio o'r adeg yr ychwanegir yr eitem i'r agenda a sicrheir y bydd unrhyw adroddiad ar gael i'r cyhoedd cyn gynted â'i fod ar gael ac yn cael ei anfon at gynghorwyr.

(d) *Gwybodaeth a fydd ar gael yn ystod Cyfarfod*

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod nifer rhesymol o gopïau o'r agenda ac unrhyw adroddiadau ar gyfer y cyfarfod ar gael ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n gorfforol bresennol yn y cyfarfod (ac eithrio yn ystod unrhyw ran o'r cyfarfod y caiff y cyhoedd eu gwahardd ohoni).

*(e) Gwybodaeth a fydd ar gael Ar ôl Cyfarfod*

Bydd agenda, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd ar gael i'w harchwilio am gyfnod o chwe blynedd.

(f) *Cyfrifon y Cyngor*

Gall y cyhoedd archwilio cyfrifon y Cyngor a chyflwyno eu safbwyntiau i'r archwilydd allanol (adrannau 29 a 30 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004). O dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, bydd y cyfrifon ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am ugain (20) niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad a bennwyd gan yr archwilydd.

Ni fydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y'i diffinnir ym mharagraffau 15.10.3 a 15.10.4) yn cael ei datgelu i aelodau'r cyhoedd ar unrhyw bryd.

3.1.2 Gwybodaeth a fydd ar gael i Gynghorwyr y Cyngor

(a) Gall Cynghorwyr weld unrhyw wybodaeth sydd ar gael i aelod o'r cyhoedd.



DRAFT

(b) Yn ogystal â hyn, caiff cynghorydd weld unrhyw wybodaeth y mae angen iddo ef neu iddi hi ei gwybod er mwyn cyflawni ei rôl fel cynghorydd y Cyngor (a adwaenir fel arall fel “angen gwybod”). Ni fydd cynghorydd yn rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y’i diffinnir yn Adran 155) heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un nad oes ganddynt hawl i’w gwybod.

(c) Bydd gan gynghorwyr hawl hefyd i weld unrhyw adroddiad sy'n ymwneud â:

(i) busnes a drafodwyd mewn cyfarfod ffurfiol o'r Cabinet, gan gynnwys adroddiadau sy'n gyfrinachol neu wedi'u heithrio
(ii) penderfyniadau gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd, aelod unigol o'r Cabinet, gan gynnwys adroddiadau sy'n gyfrinachol neu wedi'u heithrio

3.1.3 Gwybodaeth a fydd ar gael i Swyddogion

Gall y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151 a'r Prif Weithredwr weld unrhyw bapurau neu gofnodion a gedwir gan unrhyw ran o'r Cyngor neu ei swyddogion. Caiff swyddogion eraill weld unrhyw wybodaeth a gedwir gan y Cyngor cyn belled ag y bo:

(a) angen iddynt weld y wybodaeth i wneud eu gwaith; a

(b) bod y wybodaeth honno’n cael ei phrosesu’n gyfreithlon yn unol â Deddfwriaeth Diogelu Data.

**3.2 <u>Cymryd Rhan</u>**

3.2.1 Rhaid i’r Cyngor annog ei ddinasyddion i gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Gweler Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus y Cyngor am ragor o wybodaeth [LINK].

3.2.2 Aelodau’r Cyhoedd

Gall aelodau’r cyhoedd gymryd rhan yn y ffyrdd canlynol:

*(a) Pleidleisio dros Gynghorwyr*

Os yw’r aelod o’r cyhoedd dros 16 oed ac wedi’i gofrestru yn etholwr lleol gyda’r Cyngor.

*(b) Adolygu’r Blaenraglen Waith*

Mae'r Blaenraglen Waith yn cynnwys manylion y busnes sydd i'w hystyried gan y Cabinet, pwyllgorau sgriwtini a'r Cyngor;

*(c) Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer Cyfarfodydd*

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gynnwys mater ar yr agenda drwy ofyn i un o'u cynghorwyr lleol gyflwyno cais i Bennaeth Democratiaeth y Cyngor:

*(d) Cyflwyno Deisebau*

Gall aelod o’r cyhoedd geisio codi mater gyda’r Cyngor drwy gyflwyno deiseb yn unol â Chynllun Deisebau’r Cyngor [LINK]. Caiff trefnydd y ddeiseb gyfle i annerch y Cyngor neu bwyllgor perthnasol os trafodir eu deiseb.



DRAFT

*(e) Cymryd Rhan mewn Cyfarfodydd*

(i) Gall aelodau’r cyhoedd fynychu unrhyw gyfarfod ffurfiol o’r Cyngor, y Cabinet a phwyllgorau (yn amodol ar reolau ynglŷn â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig).

(ii) Gall aelodau'r cyhoedd siarad mewn unrhyw gyfarfod y mae'r Cyngor wedi penderfynu ddylai gynnwys cyfranogiad gan y cyhoedd. Mae'r rheolau ynghylch pryd y gall aelodau'r cyhoedd siarad, ac am ba hyd, wedi'u cynnwys yn Adran 4).

(f) *Safbwyntiau’r Cyhoedd*

Yn unol â’r trefniadau a sefydlwyd gan y Cyngor o dan adran 62 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gall aelodau’r cyhoedd ddwyn eu barn ar unrhyw fater sy’n cael ei ystyried gan y pwyllgor sgriwtini perthnasol i sylw’r pwyllgor perthnasol. Rhaid i’r pwyllgor sgriwtini perthnasol ystyried unrhyw safbwyntiau a ddygir i’w sylw o dan y trefniadau hyn.

*(g) Pryd y bydd Cyfarfodydd ar Agor i’r Cyhoedd?*

Bydd cyfarfodydd ar agor i’r cyhoedd pryd bynnag y bo’n bosibl. Mae’n rhaid gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo’n debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu. Caniateir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd lle y mae’n debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu. (Gweler adran 15.10 am ddiffiniad perthnasol.)

(h) *Gwneud Sylwadau/Cwynion*

(a) (i) Caiff aelod o’r cyhoedd wneud sylw, leisio pryder neu gwyno am wasanaethau’r Cyngor trwy:

(A) gysylltu ag un o’i gynghorwyr lleol;

(B) cysylltu â’r aelod o’r Cabinet sy’n gyfrifol am y gwasanaeth;

(C) cysylltu â’r swyddog sy’n gyfrifol am ddarparu’r gwasanaeth neu ei reolwr;

(D) defnyddio gweithdrefn gwyno’r Cyngor [LINK];

(E) cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn 1 Ffordd Yr Hen Gae, Pencoed, CF35 5LJ. Rhif ffôn: 0300 790 0203 neu drwy’r wefan www.ombudsman.wales.

(ii) Gellir gwneud sylwadau neu gwynion am swyddog neu aelod trwy:

(A) *Swyddog*

Cysylltu â’r swyddog neu reolwr y swyddog.

(B) *Cynghorwyr*

DRAFT

Cysylltu â'r Swyddog Monitro neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (manylion cyswllt ym mharagraff (E) uchod).

## 3.3. Cymryd Rhan – Cynghorwyr

Gall Aelodau gymryd rhan trwy:

3.3.1 Awgrymu Eitemau Busnes ar gyfer yr agenda

(a) Yn ogystal â gofyn am eitemau agenda, gall cynghorwyr gyflwyno hysbysiad o gynnig i'r Cyngor (Adran 4) a/neu ofyn cwestiynau (Adran 4).

(b) Gall unrhyw 5 cynghorydd gyflwyno cais am gyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod mater penodol. (Adran???)

### 3.3.2 Cymryd Rhan

Mae gan gynghorwyr y Cyngor hawl i fynychu cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor, y rhan fwyaf o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau a'r Cabinet, hyd yn oed pan fydd eitemau cyfrinachol neu eithriedig yn cael eu hystyried.

(a) Gall Cynghorwyr y Cyngor fynychu a siarad mewn unrhyw gyfarfod lle maent yn aelod o'r corff hwnnw. Os nad ydynt yn aelod o'r corff hwnnw, mae eu hawl i siarad yn ôl disgresiwn cadeirydd y corff.

(b) Mae gan gynghorwyr y Cabinet rôl arbennig i'w chwarae o fewn y Cyngor. Mae ganddynt hawl i arfer unrhyw Swyddogaeth Weithredol ar yr amod bod y Swyddogaeth Weithredol wedi'i dirprwyo iddynt gan Arweinydd y Cyngor.

### 3.3.3 Sylwadau a Chwynion

(a) Caiff Aelodau wneud sylwadau, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn eu Cod Ymddygiad (Adran 19), ar unrhyw agwedd ar fusnes y Cyngor trwy:

(i) siarad â Swyddogion;

(ii) siarad â’r Arweinydd neu aelodau’r Cabinet;

(iii) siarad â chadeirydd pwyllgor sgriwtini.

(a) Os dymuna Aelod wneud cwyn am:

(i) **Swyddog**

Gellir defnyddio’r weithdrefn a amlinellir yn y Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion (Adran 22).

(ii) **Cynghorydd**

Gellir dilyn y weithdrefn a amlinellir yn Atodiad 3 i Adran 19.



DRAFT

**ADRAN 4**

## 4.Y CYNGOR LLAWN

### 4.1 **Cyflwyniad**

Cyfarfod ffurfiol o'r holl gynghorwyr yw'r Cyngor Llawn. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor llawn wneud rhai penderfyniadau pwysig gan gynnwys gosod Cyllideb Flynyddol y Cyngor (yn cynnwys y dreth gyngor) a chymeradwyo nifer o gynlluniau a strategaethau allweddol sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio'r Fframwaith Polisi (a restrir isod). Mae'n gyfrifol am yr holl swyddogaethau nad yw'r Cabinet yn gyfrifol amdanynt. Bydd yn cyflawni rhai swyddogaethau ei hun, ond bydd eraill yn cael eu dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion a enwir.

### 4.2 Y Framwaith Polisi

Mae'r Fframwaith Polisi yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

4.2.1 Y rhai y mae'n rhaid i'r Cyngor, yn ôl y gyfraith, eu mabwysiadu, h..

- Dogfen Gyflawni Flynyddol (Cynllun Gwella)
- Adroddiad ar Berfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella)
- Rhestr Flynyddol Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau yn dilyn derbyn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
- Cymeradwyo Asesiad Anghenion Poblogaeth, sydd i'w baratoi o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant
- Cynllun Corfforaethol
- Polisi Gamblo
- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
- Polisi Trwyddedu
- Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol / Rhanbarthol
- Asesiad Perfformiad Panel
- Datganiad Polisi Tâl
- Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd))
- Cynllun Deisebau
- Cynlluniau a newidiadau sydd gyda'i gilydd yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (ac eithrio'r swyddogaethau hynny sy'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio)
- Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd
- Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

4.2.1 Y cynlluniau a'r strategaethau eraill hynny yr argymhellir eu mabwysiadu gan y Cyngor llawn fel rhan o'r Fframwaith Polisi, h.y. -

- Strategaeth Dai Leol

4.2.2 Y cynlluniau a'r strategaethau eraill hynny y mae'r Cyngor llawn wedi penderfynu y dylid eu mabwysiadu arnynt fel mater o ddewis lleol, h.y.

- Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol



DRAFT

- Polisi Indemniadau
- Strategaeth Tir a Lygrwyd
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol
- Strategaeth Beicio
- Cynllun Diogelwch Porthladdoedd Morol
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllun Diogelwch ar y Ffyrdd
- Strategaeth Rheoli Gwastraff
- Polisi Iaith Gymraeg

**4.3 <u>Y Cynllun Integredig Sengl</u>**

Mae hwn yn disodli pedwar o'r cynlluniau a'r strategaethau presennol a ffurfiodd ran o'r Fframwaith Polisi, sef y Strategaeth Gymunedol, y Cynllun Plant a Phobl Ifanc, y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a Chynllun y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol.

**4.4 <u>Y Gyllideb</u>**

Mae'r Gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen y dreth gyngor, gosod y dreth gyngor (ac eithrio cyfrifoldeb am Bolisi Rhyddhad Dewisol Treth y Cyngor y mae'r Cabinet yn gyfrifol amdano) a phenderfyniadau yn ymwneud â rheoli gofyniad benthyca'r Cyngor, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, rheoli ei wariant cyfalaf a gosod terfynau trosglwyddo arian. Bydd y Cyngor Llawn yn pennu cyllideb refeniw gyffredinol a chyllideb gyfalaf gyffredinol y Cyngor ac unrhyw newidiadau i'r rhain. (Gweler Adran 16 i gael gwybod sut y gall y Cyngor newid y Fframwaith Polisi neu'r Gyllideb a gyfeirir ato i'w cymeradwyo gan y Cabinet.)

**4.5 <u>Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai</u>**

Mae Trosglwyddo Tir ar gyfer Tai yn golygu cymeradwyo neu fabwysiadu ceisiadau (pa un a ydynt ar ffurf ddrafft ai peidio) i Weinidogion Cymru ar gyfer cymeradwyo rhaglen o waredu tir a ddefnyddiwyd at ddibenion preswyl lle y mae angen cymeradwyaeth o dan adran 32 neu 43 Deddf Tai 1985.

**4.6 <u>Swyddogaethau'r Cyngor Llawn</u>**

Dim ond y Cyngor Llawn a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

4.6.1 mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad; yn amodol ar baragraff 2.6;

4.6.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r Cynllun Integredig Sengl, y Fframwaith Polisi, y Gyllideb ac unrhyw gais i Weinidogion Cymru o ran unrhyw Drosglwyddiad Tir ar gyfer Tai;

4.6.3 yn amodol ar y weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth arfer Swyddogaeth Weithredol sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi neu'r Gyllideb lle y mae'r penderfynwr yn teimlo y dylid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r Gyllideb;

4.6.4 penodi a diswyddo'r Arweinydd;

4.6.5 cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai y dirprwywyd y penodiadau gan y Cyngor;

4.6.6 cyflawni swyddogaethau'r cydbwyllgor corfforedig a nodir yn Adran 11 y Cyfansoddiad hwn, gan gynnwys gwneud cais cydbwyllgor corfforedig a rhoi cydsyniad i reoliadau cydbwyllgor corfforedig sy'n cael eu gwneud;

4.6.7 newid enw'r ardal, y Sir neu gymuned;

4.6.8 cyflwyno teitl henadur anrhydeddus neu dderbyn rhywun yn rhyddfreiniwr anrhydeddus;

4.6.9 penodi neu gadarnhau penodiad i swydd Prif Weithredwr neu Ddirprwy Brif Weithredwr yn sgil argymhelliad y Pwyllgor Penodi;

4.6.10 gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau, a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu filiau personol;

4.6.11 diddymu cynghorau cymuned;

4.6.12 gwneud gorchmynion ar gyfer grwpio cymunedau;

4.6.13 gwneud gorchmynion ar gyfer diddymu grwpiau a gwahanu cynghorau cymuned o grwpiau;

4.6.14 rhannu'r etholaeth yn ardaloedd pleidleisio;

4.6.15 rhannu'r ardaloedd etholiadol yn ardaloedd pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol;

4.6.16 pŵer i ddeisebu am siarter i roddi statws bwrdeistref sirol;

4.6.17 archebu carthffosydd a gorsafoedd pwmpio ar ran y Cyngor;

4.6.18 mabwysiadu Cynllun Lwfans Aelodau;

4.6.19 cynnig newid i system bleidleisio'r Cyngor;

4.6.20 arfer pwerau'r Cyngor o dan adrannau 164-165, 168-171 a 176 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â chodi tâl ar ddefnyddwyr y ffyrdd, ac adrannau 179-180, 182-183 a 185-188 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â chynlluniau i godi am barcio yn y gweithle yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru;

4.6.21 gwneud gorchymyn sy'n nodi lle neu fan cyhoeddus dynodedig at ddibenion pwerau'r heddlu mewn perthynas ag yfed alcohol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001;

4.6.22 penderfynu a ddylai wneud cais uno i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

4.6.23 yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol a amlinellir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn / paragraff 4.2.3 y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ymgymryd â nhw yn hytrach na'r Cabinet;

4.6.24 pob mater y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, cymeradwyo penodiad neu ddiswyddo'r Prif Weithredwr, penderfynu ar y lefel (ac unrhyw newid yn lefel) tâl a delir i Brif Swyddog a chymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl;



DRAFT

4.6.25 penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol, ac eithrio swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a benodir gan y Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori ag arweinyddion grwpiau/aelodau digyswllt neu pan fydd yn rhaid gwneud y penodiad o blith aelodau'r Cabinet; os felly, bydd yr Arweinydd yn gwneud penodiadau o'r fath bob amser;

4.6.26 cymeradwyo, adolygu a diwygio Cynllun Deisebau'r Cyngor;

4.6.27 ymgynghori â phobl leol, personau eraill sy'n ymgymryd â busnes yn ardal y Cyngor, swyddogion y Cyngor a phob undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor ynghylch i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni ei ofynion perfformiad;

4.6.28 paratoi adroddiad blynyddol ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion perfformiad;

4.6.29 gwneud trefniadau ar gyfer asesiad perfformiad panel ac ymateb i adroddiad y panel;

4.6.30 adolygu, cymeradwyo a diwygio amcanion llesiant y Cyngor yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;

4.6.31 ystyried adroddiadau'r Prif Weithredwr a baratoir yn unol ag adran 54(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud;

4.6.32 ystyried adroddiadau blynyddol a gafwyd gan y Pwyllgor Safonau, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud; a

4.6.33 parhau i adolygu i ba raddau y mae'r Cyngor yn:

(a) arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;

(b) defnyddio ei adnoddau'n economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol; a

(c) bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol er mwyn sicrhau'r materion sydd wedi'u nodi yn a) a b) uchod.

## 4.7 Aelodaeth

Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn Aelodau o'r Cyngor Llawn.

Nid yw dirprwyo'n bosibl yng nghyfarfodydd y Cyngor.

<u>Cadeirio'r Cyngor</u>

(a) Bydd y cynghorydd a etholir yn flynyddol gan y Cyngor fel ei gadeirydd yn cael ei alw'n "Cadeirydd".

(b) Bydd y Cadeirydd yn peidio â bod yn Gadeirydd os yw'n ymddiswyddo, yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor, neu'n methu â gweithredu fel aelod o'r Cyngor. Bydd yn parhau i weithredu fel Cadeirydd ar ôl etholiad nes bod ei olynydd wedi'i benodi yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

(c) Mae cadeirydd ac is-gadeirydd yn gymwys i gael eu hailethol.

Rôl a Swyddogaeth y Cadeirydd

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac yn ei (h)absenoldeb ef/hi, yr Is-gadeirydd, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

*(a) Rôl Seremonïol*

Mae Cadeirydd y Cyngor:

(i) yn arweinydd dinesig Cyngor Sir Ynys Môn;

(ii) yn hyrwyddo buddiannau ac enw da'r Cyngor ac Ynys Môn yn gyffredinol ac yn gweithredu fel llysgennad ar gyfer y ddau;

(iii) yn ymgymryd â gweithgareddau dinesig, cymunedol a seremonïol ac yn meithrin hunaniaeth a balchder cymunedol; ac

(iv) yn cyflawni swyddogaethau dinesig a seremonïol ag y mae'r Cyngor a'r Cadeirydd yn penderfynu sy'n briodol

*(b) Cyfrifoldebau'r Cadeirydd*

(i) cynnal a hyrwyddo diben y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad pan fo angen;

(ii) llywyddu cyfarfodydd y Cyngor fel bod modd cynnal ei fusnes yn deg ac yn effeithlon a chan ystyried hawliau cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;

(iii) sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sy'n bwysig i'r gymuned leol ac yn lle y gall cynghorwyr nad ydynt ar y Cabinet ddwyn y Cabinet a chadeiryddion y pwyllgorau i gyfrif;

(iv) hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd yng ngweithgareddau'r Cyngor;

(v) bod yn gydwybod y Cyngor; a

(vi) chyflawni dyletswyddau fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 (2.5.1.2.7)

## 4.8 Cyfarfodydd y Cyngor

Ceir tri math o gyfarfod Cyngor:

4.8.1 y cyfarfod blynyddol;

4.8.2 cyfarfodydd cyffredin; a

4.8.3 chyfarfodydd arbennig

.

## 4.9 Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor

Bydd Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor a gynhwysir yn yr Adrannau isod yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn.

## 4.10 Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor

### 4.10.1 Amseru a Busnes

4.10.1.1 Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis cynghorwyr (“**Blwyddyn Etholiad”),** cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 diwrnod o ymddeoliad y cynghorwyr sy’n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mawrth, mis Ebrill neu fis Mai (“**Blwyddyn Gyffredin**”).
4.10.1.2 Mewn unrhyw Flwyddyn Gyffredin, bydd y cyfarfod blynyddol yn ymdrin â’r holl faterion a restrir yn 4.10.1.4 a 4.10.5 oni nodir yn wahanol.

4.10.1.3 Bydd y cyfarfod blynyddol yn:

(a) ethol unigolyn i lywyddu os nad yw Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn bresennol;

(b) ethol Cadeirydd y Cyngor;

(c) ethol Is-gadeirydd y Cyngor;

(d) cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

(e) derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd a/neu’r Prif Weithredwr;

(f) derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan arweinyddion grwpiau gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd; bydd y gymeradwyaeth honno wedi’i chytuno ymlaen llaw cyn y cyfarfod;

(g) Mewn Blwyddyn Etholiad yn unig, ethol Arweinydd y Cyngor;

(h) Yr Arweinydd i hysbysu’r Cyngor o enw’r Dirprwy Arweinydd/ion);

(i) Yr Arweinydd i hysbysu’r o nifer y cynghorwyr a benodwyd i’r Cabinet ac enwau’r cynghorwyr hynny;

(j) ethol Cadeirydd i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd;

(k) penodi’r pwyllgorau sgriwtini a’r cyfryw bwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill ag y mae’r Cyngor yn ystyried sy’n briodol, neu’n ofynnol yn ôl y gyfraith, i ymdrin â materion nad ydynt wedi’u neilltuo i’r Cyngor nac yn Swyddogaethau Gweithredol (fel yr amlinellir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn);

(l) cytuno ar y Cynllun Dirprwyo â swyddogion (fel yr amlinellir yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn);

(m) cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor ar gyfer y flwyddyn; ac

(n) ystyried unrhyw fusnes a nodir yn y rhybudd sy’n ymgynnull y cyfarfod.

### 4.10.2 Penodi Cynghorwyr ar Bwyllgorau a Chyrff Allanol



DRAFT

Yn y cyfarfod blynyddol, bydd cyfarfod y Cyngor yn:

(a) penderfynu pa bwyllgorau ac is-bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;

(b) penderfynu ar faint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny;

(c) penderfynu ar ddyrannu seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol;

(d) cadarnhau'r rhestr penodiadau i gyrff allanol ac eithrio pan fo angen i'r cynghorwyr fod o blith aelodau'r Cabinet, yn yr achosion hynny gwneir y penodiadau hynny gan yr Arweinydd.

**4.11 <u>Cyfarfodydd Cyffredin</u>**

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â rhaglen y penderfynir arni yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd y drefn busnes mewn cyfarfodydd cyffredin fel a ganlyn:

4.11.1 ethol unigolyn i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn bresennol;

4.11.2 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;

4.11.3 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau gan swyddogion;

4.11.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd a/neu'r Prif Weithredwr;

4.11.5 ethol Cadeirydd y Cyngor;

4.11.6 derbyn adroddiad/au gan yr Arweinydd a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad/au;

4.11.7 derbyn adroddiad/ai gan unrhyw aelod/au o'r Cabinet a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiad;

4.11.8 derbyn adroddiad/au gan bwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau ac atebion ar yr adroddiadau hynny;

4.11.9 derbyn adroddiadau ynglŷn â busnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol a derbyn cwestiynau ac atebion arnynt;

4.11.10 ystyried unrhyw fusnes arall a nodwyd yn y wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried cynigion gan y Cabinet ynglŷn â Chyllideb a Fframwaith Polisi'r Cyngor, y Cynllun Integredig Sengl ac adroddiadau'r pwyllgor sgritwini;

4.11.11 ystyried cynigion y rhoddwyd rhybudd ohonynt; ac

4.11.12 ymdrin â chwestiynau gan aelodau yn unol â Rheol 4.16.

4.11.13 derbyn cwestiynau gan y cyhoedd, a rhoi atebion iddynt, mewn perthynas â materion y mae'r Cadeirydd o'r farn eu bod yn berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor.

4.11.14 Cyflwyno Deisebau

(a) Yng Nghyfarfodydd Cyffredin y Cyngor gall unrhyw gynghorydd gyflwyno deiseb, wedi'i llofnodi gan bobl nad ydynt yn gynghorydd. Gall y cyhoedd gyflwyno deisebau am

faterion y mae’r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys

Bydd cynghorydd sy'n dymuno cyflwyno deiseb yn rhoi rhybudd o'i fwriad i wneud hynny i'r Prif Weithredwr cyn dechrau'r cyfarfod lle mae'r ddeiseb i'w chyflwyno.

Cyfyngir ar yr amser i gyflwyno deiseb i hyd at dri munud, a chyfyngir y broses i ddarllen neu grynhoi neges y ddeiseb, gan nodi nifer y llofnodwyr a disgrifiad ohonynt, a gwneud sylwadau cefnogol pellach sy'n berthnasol i'r ddeiseb ag y bydd y person sy'n ei chyflwyno yn meddwl yn addas. Ar ôl ei chyflwyno, bydd testun y ddeiseb yn cael ei gyfeirio, heb drafodaeth, i'r Cabinet, pwyllgor, neu at swyddog penodol o'r Cyngor oni bai bod y Cadeirydd yn credu y gellir ymdrin â'r mater yn briodol o dan eitem arall ar agenda'r Cyfarfod presennol.

Cyflwynir deisebau yn y drefn y mae'r Prif Weithredwr yn derbyn rhybudd ohonynt.

(b) Mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor, gall trefnydd deiseb gyflwyno unrhyw ddeiseb ar yr agenda a gyflwynwyd o dan Gynllun Deisebau'r Cyngor LINK. Caniateir i drefnydd y ddeiseb gael pum munud i gyflwyno ei ddeiseb cyn bod y cynghorwyr yn ei thrafod.

4.11.15 ymdrin ag unrhyw fusnes sy'n weddill o gyfarfod diwethaf y Cyngor;

**4.11.16 Cyfarfodydd Arbennig**

4.11.17 Gawl Cyfarfodydd Arbennig

Caiff y Prif Weithredwr alw cyfarfodydd y Cyngor yn ychwanegol at gyfarfodydd cyffredin. Caiff y rhai a restrir isod wneud cais i’r Prif Weithredwr alw cyfarfodydd Cyngor ychwanegol:

(a) y Cyngor trwy benderfyniad;

(b) Cadeirydd y Cyngor (neu’r Is-gadeirydd os yw swydd y Cadeirydd yn wag neu os yw ddim ar gael;

(c) Y Swyddog Monitro

(d) unrhyw bum cynghorydd os ydynt wedi llofnodi cais, gan nodi natur y busnes, a'i gyflwyno i Gadeirydd y Cyngor (neu'r Is-Gadeirydd os swydd y Cadeirydd yn wag neu os yw ddim ar gael) a bod y Cadeirydd wedi gwrthod galw cyfarfod neu wedi methu â galw cyfarfod o fewn saith diwrnod i gyflwyno'r cais

4.11.18 Busnes mewn Cyfarfodydd Arbennig

Bydd y busnes sydd i’w gynnal mewn cyfarfod arbennig yn gyfyngedig i’r eitem neu’r eitemau busnes a geir yn y cais am y cyfarfod arbennig ac ni fydd cofnodion blaenorol nac adroddiadau gan bwyllgorau ac ati yn cael eu hystyried. Fodd bynnag, caiff y Cadeirydd, yn ôl ei (d)disgresiwn llwyr ef/hi, ganiatáu ymgymryd ag eitemau busnes eraill er mwyn cyflawni busnes y Cyngor yn effeithlon.

## 4.12 Amser, Lleoliad a Hyd Cyfarfodydd

4.12.1 Amser a Lleoliad Cyfarfodydd

(a) Pennir amser a lleoliad cyfarfodydd gan y Prif Weithredwr ac fe’u nodir gan y yn yr wŷs.

(b) Os yw'r cyfarfod i'w gynnal yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, bydd y wŷs hefyd yn cynnwys manylion sut i gael mynediad i'r cyfarfod o bell.

4.12.2 Hyd Cyfarfodydd

Mewn cyfarfod cyffredin o'r Cyngor, pan fydd tair awr wedi mynd heibio ers i'r cyfarfod ddechrau, bydd y Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod yn syth ar ôl cwblhau'r eitem busnes sy'n cael ei thrafod ar y pryd, oni bai bod mwyafrif y rhai sy'n bresennol yn pleidleisio dros barhau. Os bydd angen, ystyrir y busnes sy'n weddill ar amser a dyddiad a bennir gan y Prif Weithredwr. Os nad yw amgylchiadau'n caniatáu, bydd y Prif Weithredwr yn pennu y gwneir hyn yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

## 4.13 Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs iddynt

4.13.1 Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 15. O leiaf 3 diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn anfon gwŷs a lofnodwyd ganddo ef/ganddi hi at bob cynghorydd. Bydd y wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod a, lle cynhelir cyfarfodydd yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml-leoliad, manylion sut i gael mynediad i'r cyfarfod o bell. Bydd y wŷs hefyd yn nodi'r busnes sydd i'w drafod a bydd hefyd yn cynnwys y cyfryw adroddiadau sydd ar gael.

4.13.2 Anfonir gwŷs at gynghorwyr i'w cyfeiriad electronig enwebedig. Os yw cynghorydd yn gofyn i'w wŷs gael ei anfon atynt ar bapur, rhaid i'r cynghorydd anfon cais ysgrifenedig, gan gynnwys manylion ei gyfeiriad post enwebedig, at y Prif Weithredwr. Bydd unrhyw wŷs a gyfeirir at yr aelod ac a adewir yn y cyfeiriad hwnnw neu a anfonir drwy'r post yn cael ei ystyried fel gwasanaeth digonol o ran cyflwyno gwŷs.

4.13.3 Ni fydd cyflwyno gwŷs ar unrhyw aelod o'r Cyngor yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod nac unrhyw benderfyniad a wneir.

## 4.14 Cadeirio'r Cyfarfod

Caiff y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd a briodolir i'r Cadeirydd. Pan fo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgor, dylid cymryd bod cyfeiriadau at y Cadeirydd yn golygu cadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

## 4.15 Cworwm

4.15.1 Oni ddywedir yn wahanol mewn man arall yn y Cyfansoddiad hwn, cworwm Cyfarfod fydd chwarter cyfanswm y cynghorwyr. Os yw'r Cadeirydd yn ystod unrhyw gyfarfod yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Ystyrir y busnes sy'n weddill ar adeg ac ar ddyddiad a bennir gan y Prif Weithredwr. Os bydd amgylchiadau'n caniatáu, gall y Prif Weithredwr bennu y gwneir hyn yn y cyfarfod cyffredin nesaf. Os nad yw'n gosod dyddiad, ystyrir y busnes sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

4.15.2 Os yw cynghorydd ar gyfnod absenoldeb teuluol, ac os byddai'n anodd cael dirprwy ar gyfer y cynghorydd hwnnw neu honno ar sail dros dro, gall Cadeirydd y Cyngor ofyn i'r cynghorydd hwnnw neu honno fynychu cyfarfod os na fyddai cworwm ynddo efallai fel arall. Nid oes rhaid i'r cynghorydd hwnnw neu honno fynychu.

4.15.3 Presenoldeb o Bell

4.15.4 Bydd aelodau'n cael eu hystyried yn bresennol mewn cyfarfod lle maent yn mynychu'r cyfarfod hwnnw o bell yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer cyfarfodydd aml- leoliad cyn belled â'u bod yn gallu siarad, clywed a chael eu clywed gan fynychwyr eraill yn y cyfarfod.

4.15.5 At ddibenion adran 4.15.4, mae presenoldeb "trwy ddulliau o bell" yn golygu presenoldeb mewn lleoliad ffisegol gwahanol i leoliad cyfranogwyr eraill drwy gyfrwng cyfarfod ar-lein.

## 4.16 Cwestiynau gan Gynghorwyr

4.16.1 Ar Adroddiadau'r Arweinydd, y Cabinet neu'r Pwyllgorau

Gall cynghorydd ofyn unrhwy gwestiwn yn ddirybudd i'r Artweinydd, aelod o'r Cabinet neu gadeirydd pwyllgor ar eitem mewn adroddiad gan yr Arweinydd, y
Gall cynghorydd ofyn unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i'r Arweinydd, aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu gadeirydd pwyllgor ar eitem mewn adroddiad gan yr Arweinydd, y Pwyllgor Gwaith neu gan bwyllgor pan fo'r eitem honno yn cael ei hystyried gan y Cyngor, neu o dan ystyriaeth ganddo, ond dim ond pan fo'r person y cyflwynir y cwestiwn iddo neu iddi yn awdur neu'n gyd-awdur y cyfryw adroddiad neu'n gynghorydd gyda'r cyfrifoldeb pennaf am y pwnc sydd dan sylw yn yr adroddiad

4.16.2 Cwestiynau y rhoddir Rhybudd ohonynt yn y Cyngor llawn

Yn ddarostyngedig i Reol 4.16.4, gall cynghorydd ofyn:

(a) i'r Cadeirydd;

(b) yr Arweinydd;

(c) aelod o'r Cabinet; neu

(d) gadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor;

unrhyw gwestiwn am faterion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys

4.16.3 Cwestiynau y rhoddir Rhybudd ohonynt mewn Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau

Yn ddarostyngedig i Reol 4.16.4 gall aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ofyn cwestiwn i'r cadeirydd ar unrhyw fater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys

4.16.4 Rhybudd o Gwestiynau

Gall cynghorydd ofyn cwestiwn o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3 os yw nail ai:

(a) wedi rhoi o leiaf 5 o ddyddiau gwaith clir o rybudd yn ysgrifenedig ynglyn â'r cwestiwn i'r Prif Weithredwr a bod y rhybudd o'r cwestiwn wedi'i lofnodi gan y cynghorydd; neu

(b) os yw'r cwestiwn yn ymwneud â materion brys yn ôl cydsyniad y Cadeirydd a'u bod wedi derbyn caniatâd y Cynghorydd y cyflwynir y cwestiwn iddo neu iddi a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr a'i lofnodi gan y cynghorydd erbyn hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod. Derbynnir rhybudd ysgrifenedig o gwestiynau ar ffurf copi caled neu o gyfrif ebost y Cyngor y

cynghorydd.

4.16.5 Uchafswm Nifer y Cwestiynau

Gall cynghorydd ofyn un cwestiwn yn unig o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3. Uchafswm nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor yw 10 ac os yw nifer y cwestiynau yn fwy na 10 dim ond y 10 cwestiwn cyntaf a dderbynnir gan y Prif Weithredwr fydd yn cael eu cyhoeddi ar yr agenda. Bydd unrhyw gwestiynau sy'n weddill heb eu hateb yn cael eu hailgyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

4.16.6 Trefn y Cwestiynau

Bydd y 10 cwestiwn cyntaf y rhoddwyd rhybudd ohonynt o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3 yn cael eu rhestru ar yr agenda yn y drefn y cawsant eu derbyn gan y Prif Weithredwr.

4.16.7 Cynnwys y Cwestiynau

Rhaid i gwestiynau o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3, ym marn y Prif Weithredwr:

(a) beidio â chynnwys unrhyw fynegiadau o farn;

(b) bod yn berthnasol i faterion y mae gan y Cyngor bolisi arnynt neu y gallai bennu polisi arnynt; (?)

(c) peidio ag ymwneud â chwestiynau ynglŷn â ffaith; (?)

(d) beidio ymwneud â gwybodaeth sydd eisoes ym meddiant y cynghorydd neu sydd wedi'i chyhoeddi, naill ai mewn adroddiad pwyllgor, neu fel arall;

(e) ymwneud â mater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys;

(f) beidio â bod o natur bersonol neu'n feirniadol o gymhellion neu gymeriad personol eraill.

4.16.8 Ymateb

Gall ateb fod ar ffurf:

(a) ateb ysgrifenedig neu lafar uniongyrchol;

(b) pan fo'r wybodaeth y dymunir yn un o gyhoeddiadau'r Cyngor neu mewn gwaith cyhoeddedig arall, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu

(c) pan na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig a ddosberthir i'r holl gynghorwyr o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfodydd, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor. Maes o law fe'u hychwanegir at gofnodion y cyfarfod.

4.16.9 Cwestiwn Atodol

4.18.9.1 Gall cynghorydd sy'n gofyn cwestiwn ar ôl rhoi rybudd ohono, o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3, ofyn un cwestiwn atodol, heb rybudd, i'r cynghorydd y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu o'r ateb.

4.18.9.2 bydd gan y Cadeirydd ddisgresiwn llwyr i benderfynu a yw'r cwestiwn atodol

yn briodol; a lle y bo'n berthnasol, byddant yn esbonio pam fod unrhyw gwestiwn atodol yn amhriodol.

4.16.10 Hyd Areithiau

Caiff Aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3 a chynghorydd sy'n ateb cwestiwn o'r fath siarad am ddim mwy na 5 munud oni bai bod y Cadeirydd yn cydsynio i gyfnod hwy.

4.16.11 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cwestiynau yng Nghyfarfodydd y Cyngor

(a) Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cwestiynau (y rhoddwyd rhybudd ohonynt) a gyflwynwyd o dan Reol 4.16.2, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 6 munud.

(b) Ar ddiwedd yr ateb i'r cwestiwn sy'n cael ei ystyried pan fydd 60 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy a ganiatawyd gan y Cyngor) o'r adeg y dechreuodd yr holwr cyntaf siarad, bydd y Cadeirydd yn dod â'r eitem ar yr agenda i ben heb drafodaeth bellach.

(c) Bydd unrhyw gwestiynau sy'n weddill yn cael ymateb ysgrifenedig i bob aelod ac fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor o fewn cyfnod rhesymol. Fe'u hychwanegir maes o law at gofnodion y cyfarfod.

**4.17 <u>Cynigion y rhoddir Rhybudd ohonynt</u>**

4.17.1 Rhybudd

Ac eithrio cynigion y gellir eu cyflwyno heb rybudd o dan Reol 4.18 ac mewn achosion brys, mae'n rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o bob cynnig i'r Prif Weithredwr fan bellaf ar 5 diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod o'r Cyngor y bwriedir ei ystyried ynddo.

4.17.2 Nodi Cynigion yn yr Agenda

Bydd cynigion y rhoddwyd rhybudd ohonynt yn cael eu rhestru yn yr agenda yn y drefn y cawsant eu derbyn gan y Prif Weithredwr.

4.17.3 Cwmpas

Mae'n rhaid i gynigion ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys.

4.17.4 Cynnig i Gael Gwared ar yr Arweinydd

(a) Ni ellir cyflwyno cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 9 o gynghorwyr sy'n cynnwys cynghorwyr o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf. Gweler Adran 6.3.2.

(b) Er mwyn i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, mae'n rhaid iddo gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorwyr hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

(c) Ni ellir cyflwyno cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

4.17.5 Un Cynnig fesul Cynghorydd



DRAFT

Ni chaiff unrhyw gynghorydd roi rhybudd o fwy nag un cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd y Prif Weithredwr.

4.17.6 Yr Amser a Ganiateir ar gyfer Cynigion

Ni chaiff yr amser a ganiateir ar gyfer ystyried cynigion o dan y Rheol hon, heb gydsyniad y Cyngor, fod yn fwy na 60 munud. Ar ddiwedd yr araith a draddodir pan fydd 60 munud wedi dod i ben (neu'r cyfryw gyfnod hwy y mae'r Cyngor wedi cydsynio iddo) o ddechrau'r adeg yr ystyriodd y Cyngor y cynnig cyntaf o'r fath, bydd y Cadeirydd yn cynnal pleidlais, heb drafodaeth bellach, ar yr holl gwestiynau sy'n angenrheidiol i gwblhau'r cynnig sy'n cael ei drafod, yn amodol ar y canlynol:

(a) os yw'r araith sydd i'w chwblhau yn araith sy'n cyflwyno cynnig, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r cynnig gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau);

(b) os yw'r araith sydd i'w chwblhau yn araith sy'n cynnig diwygiad, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r diwygiad gael ei eilio'n ffurfiol (heb sylwadau) a chaiff y sawl sy'n cyflwyno'r cynnig arfer ei hawl i ymateb; ac

(c) fel arall, bydd y Cadeirydd yn caniatáu i'r sawl sy'n cyflwyno'r cynnig arfer ei hawl i ymateb.

Bydd unrhyw gynigion sy'n weddill a gyflwynwyd o dan y Rheol hon yn cael eu gohirio tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor ac ymdrinnir â nhw yn y cyfarfod hwnnw yn yr un drefn a chyn unrhyw gynigion eraill y rhoddwyd rhybudd ohonynt ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

**4.18 <u>Cynigion Heb Rybudd</u>**

Ceir cyflwyno'r cynigion canlynol heb rybudd:

4.18.1 penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod;

4.18.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;

4.18.3 newid trefn busnes yr agenda;

4.18.4 atgyfeirio rhywbeth i gorff neu unigolyn priodol;

4.18.5 penodi pwyllgor / is-bwyllgor / gweithgor i ystyried o eitem ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;

4.18.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion gan bwyllgorau neu Swyddogion ac unrhyw benderfyniadau yn deillio ohonynt;

4.18.7 tynnu cynnig yn ôl;

4.18.8 diwygio cynnig;

4.18.9 symud ymlaen i'r busnes nesaf;

4.18.10 bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

4.18.11 gohirio trafodaeth;

4.18.12 gohirio cyfarfod;



DRAFT

4.18.13 atal un o Reolau Gweithdrefnol penodol y Cyngor;

4.18.14 bod y Cyfarfod yn parhau am ragor na 3 awr;

4.18.15 gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth;

4.18.16 peidio â chlywed mwy gan Aelod a enwyd o dan Reol 4.25.3 neu ei (g)wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 4.25.4;

4.18.17 rhoi caniatâd y Cyngor lle y mae ei ganiatâd yn ofynnol gan y Cyfansoddiad hwn;

4.18.18 Rheolau Trafod

4.18.19 Dim areithiau nes bod cynnig yn cael ei eilio

Ni cheir rhoi unrhyw areithiau ar ôl i'r cynigiwr gyflwyno cynnig ac esbonio ei ddiben nes bod y cynnig wedi cael ei eilio

4.18.20 Hawl i Ofyn am y Cynnig yn Ysgrifenedig

Oni bai bod rhybudd eisoes wedi'i roi o'r cynnig, caiff y Cadeirydd fynnu ei fod yn cael ei nodi'n ysgrifenedig a'i roi iddo ef/iddi hi cyn iddo gael ei drafod.

4.18.21 Araith yr Eiliwr

Wrth eilio cynnig neu ddiwygiad, caiff Aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y drafodaeth.

4.18.22 Cynnwys a Hyd Areithiau

Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt trefn, ac ni chaiff unrhyw araith fod yn fwy na 5 munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

4.18.23 Pryd y caiff Aelod Siarad Eto

Ni chaiff cynghorydd sydd wedi siarad ynghylch cynnig siarad eto tra bod y cynnig hwnnw'n destun trafodaeth, ac eithrio i:

(a) siarad unwaith ynghylch diwygiad a gynigiwyd gan Aelod arall;

(b) cynnig diwygiad ychwanegol os cafodd y cynnig ei ddiwygio ers iddo siarad ddiwethaf;

(c) os oedd ei araith gyntaf yn ymwneud â diwygiad a gynigiwyd gan gynghorydd arall, siarad ynghylch y prif fater (pa un a dderbyniwyd y diwygiad y siaradodd yn ei gylch ai peidio);

(d) arfer yr hawl i ymateb;

(e) ar bwynt trefn; ac

(f) fel esboniad personol, ac



DRAFT

(g) mewn ymateb i gwestiwn a ganiateir gan Reol 4.18

4.18.24 Gwelliant i Gynigion

(a) Rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:

(i) i drosglwyddo'r mater i gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

(ii) i ddileu geiriau;

(iii) i ddileu geiriau neu ychwanegu rhai eraill; neu

(iv) i ychwanegu geiriau

cyn belled nad yw effaith 4.18.24(a)(ii) i 4.18.24(a)(iv) yn negyddu'r cynnig.

(b) Dim ond un gwelliant y ceir ei gynnig a'i drafod ar unrhyw un adeg. Ni cheir cynnig unrhyw welliant ychwanegol nes bod penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r gwelliant sy'n cael ei drafod.

(c) Os na dderbynnir gwelliant, ceir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol.

(d) Os derbynnir gwelliant, bydd y cynnig fel y cafodd ei ddiwygio yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Yna daw hwn yn gynnig gwreiddiol y bydd unrhyw ddiwygiadau ychwanegol yn cael eu cynnig iddo.

(e) Ar ôl i welliant gael ei dderbyn, bydd y Cadeirydd yn darllen y cynnig wedi'i wella cyn derbyn unrhyw welliannau pellach neu, os nad oes rhai, yn ei roi gerbron pleidlais.

4.18.25 Newid Cynnig

(a) Caiff cynghorydd newid cynnig y mae wedi rhoi rhybudd ohono gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

(b) Caiff cynghorydd newid cynnig y mae wedi'i gyflwyno heb roi rhybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eiliwr. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth.

(c) Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliant y ceir eu gwneud.

4.18.26 Tynnu Cynnig yn Ôl

Caiff cynghorydd dynnu'n ôl cynnig a gyflwynwyd ganddo/ganddi gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eiliwr. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei roi heb drafodaeth. Ni chaiff unrhyw gynghorydd siarad ynghylch y cynnig ar ôl i'r cynigiwr ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl oni bai y gwrthodir caniatâd.

4.18.27 Hawl i Ymateb

(a) Mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig yr hawl i ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi gerbron pleidlais.

(b) Os cynigir gwelliant, mae gan y sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol yr hawl i

ymateb ar ddiwedd y drafodaeth ynghylch y diwygiad, ond ni chaiff siarad yn ei gylch fel arall.

(c) Nid oes gan y sawl a gyflwynodd y diwygiad yr hawl i ymateb i'r drafodaeth ynghylch ei (d)diwygiad ef/hi.

4.18.28 Cynigion y ceir eu Cyflwyno yn ystod Trafodaeth

Pan fydd cynnig yn destun trafodaeth, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

(a) tynnu cynnig yn ôl;

(b) diwygio cynnig;

(c) symud ymlaen i'r busnes nesaf;

(d) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

(e) gohirio trafodaeth;

(f) gohirio cyfarfod;

(g) bod y cyfarfod yn parhau am ragor na 3 awr

(h) gwahardd y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth; a

(i) pheidio â chlywed mwy gan gynghorydd a enwyd o dan Reol 4.25.3 neu ei wahardd o'r cyfarfod o dan Reol 4.25.4.

4.18.29 Cynigion Cau

(a) Caiff cynghorydd gyflwyno, heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith Aelod arall;

(i) symud ymlaen i'r busnes nesaf;

(ii) bod y cwestiwn yn awr yn cael ei ofyn;

(iii) gohirio trafodaeth; neu

(iv) ohirio cyfarfod.

(b) Os bydd cynnig i symud ymlaen i'r busnes nesaf yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol ac yna'n rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais.

(c) Os bydd cynnig bod y cwestiwn yn awr gael ei ofyn yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn bod yr eitem wedi'i thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i bleidlais. Os caiff ei dderbyn, bydd yn rhoi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi ei gynnig ef/ei chynnig hi gerbron pleidlais

(d) Os bydd cynnig i ohirio'r drafodaeth neu'r cyfarfod yn cael ei eilio a bod y Cadeirydd o'r farn nad yw'r eitem wedi'i thrafod yn ddigonol ac na ellir gwneud hynny'n


DRAFT

rhesymol ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol gerbron pleidlais heb roi hawl i ymateb i'r sawl a gyflwynodd y cynnig gwreiddiol.

4.18.30 Pwynt Trefn

Pwynt trefn yw cais gan gynghorydd i'r Cadeirydd ddyfarnu ynglŷn ag afreoleidd-dra honedig yng ngweithdrefn y cyfarfod. Caiff cynghorydd godi pwynt trefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn gwrando arno/arni ar unwaith. Caiff pwynt trefn ymwneud yn unig â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor neu'r gyfraith. Mae'n rhaid i'r cynghorydd nodi'r Rheol neu'r gyfraith a'r ffordd y mae'n ystyried y'i torrwyd. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â'r mater yn derfynol.

4.18.31 Esboniad Personol

Caiff Aelod roi esboniad personol ar unrhyw adeg. Caiff esboniad personol ymwneud yn unig â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr Aelod a allai ymddangos fel pe bai wedi'i chamddeall yn y drafodaeth bresennol. Bydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â derbynioldeb esboniad personol yn derfynol.

**4.19 <u>Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir</u>**

4.19.1 Galw Trafodaeth

Caiff yr Arweinydd alw trafodaeth ynghylch cyflwr y Sir bob blwyddyn ar ddyddiad ac ar ffurf y cytunir arnynt gyda'r Cadeirydd.

4.19.2 Ffurf y Drafodaeth

Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar ffurf y drafodaeth gyda'r nod o alluogi cymaint o gyfranogiad gan y cyhoedd a chyhoeddusrwydd â phosibl. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithdai a digwyddiadau eraill cyn neu yn ystod y drafodaeth.

4.19.3 Cadeirio'r Drafodaeth

Cadeirir y drafodaeth gan y Cadeirydd

4.19.4 Canlyniadau'r Drafodaeth

Bydd canlyniadau'r drafodaeth yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl yn y gymuned ac ymhlith asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal sy'n gweithio mewn partneriaeth weithredol â'r Cyngor, a byddant yn cael eu hystyried gan yr Arweinydd wrth gynnig y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4.20 <u>Penderfyniadau a Chynigion Blaenorol</u>**

4.20.1 Cynnig i Ddiddymu Penderfyniad Blaenorol

A Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaed mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 9 cynghorydd, ac eithrio yn achos gwybodaeth newydd sy'n dod i'r amlwg.

4.20.2 Cynnig sy'n Debyg i Un a Wrthodwyd yn Flaenorol

Ni ellir cyflwyno cynnig neu welliant sy'n debyg i un a wrthodwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf oni bai bod y rhybudd o'r cynnig neu'r gwelliant yn cael ei lofnodi gan o leiaf 9 cynghorydd. Pan fydd y cynnig neu'r gwelliant wedi derbyn sylw, ni all unrhyw un gyflwyno cynnig neu ddiwygiad tebyg am chwe mis.



DRAFT

## 4.21 Pleidleisio

4.21.1. Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu'n wahanol, penderfynir ar unrhyw fater gan fwyafrif syml o'r cynghorwyr hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

4.21.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y bydd y Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

4.21.3 Dull Pleidleisio

Oni bai y mynnir pleidlais gofnodedig o dan Reol 4.21.5 neu Reol xxx, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais trwy godi dwylo, neu drwy ddefnyddio system bleidleisio electronig y Cyngor os oes un, neu os nad oes anghytundeb, trwy gadarnhad y cyfarfod.

4.21.4 Pleidlais Gudd

Cymerir y bleidlais drwy bleidleisio ar bapur os yw 9 o Aelodau sy'n bresennol yn y Cyfarfod yn mynnu hynny. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad rhifol y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn wybyddus.

4.21.5 Pleidlais a Gofnodwyd

Os mynna 9 o Aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y Cyngor neu, [yn achos Pwyllgorau a phanelau chwarter yr holl aelodau neu dri aelod sydd â hawl i bleidleisio, pa nifer bynnag sydd fwyaf], bydd yr enwau dros ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu sy'n atal rhag pleidleisio, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais a gofnodwyd yn cael blaenoriaeth ar alwad am bleidlais.
.

4.21.6 Hawl i'w gwneud yn Ofynnol i Bleidlais Unigol gael ei Chofnodi

Lle bo unrhyw aelod yn gofyn am hynny yn union ar ôl cymryd y bleidlais, cofnodir eu pleidlais felly yn y cofnodion i ddangos a wnaethant bleidleisio dros neu yn erbyn y cynnig, neu a fu iddynt atal rhag pleidleisio.

4.21.7 Pleidleisio ar Benodiadau

Os enwebir mwy na dau unigolyn ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w llenwi ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un unigolyn, yna bydd enw'r unigolyn sydd â'r nifer leiaf o bleidleisiau yn cael ei ddileu o'r rhestr a phleidlais newydd yn cael ei chynnal. Bydd y broses yn parhau hyd nes y ceir mwyafrif o bleidleisiau dros un unigolyn. Bydd y bleidlais yn cael ei chynnal, os mai dyna yw dymuniad y Cyngor, trwy bleidlais gudd. Pryd bynnag y bydd y bleidlais yn gyfartal i ddau neu i ragor na dau o ymgeiswyr bydd y Cadeirydd yn cael ail bleidlais neu bleidlais fwrw yn unol â Rheol xyz uchod.

## 4.22 Cofnodion

4.22.1 Llofnodi'r Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y

Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi yn gofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

4.22.2 Dim Gofyniad i Lofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

O ran unrhyw gyfarfod, pan fydd y cyfarfod nesaf at ddiben llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a alwyd o dan baragraff 3 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfarfod arbennig), yna bydd y cyfarfod dilynol nesaf (sef cyfarfod a alwyd heblaw o dan y paragraff hwnnw) yn cael ei drin fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) Atodlen 12 yn ymwneud â llofnodi cofnodion.

4.22.3 Ffurf Cofnodion

Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a'r gwelliannau yn y ffurf a'r drefn y'u gwnaed gan y Cadeirydd.

**4.23 <u>Cofnod o Bresenoldeb</u>**

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau sy'n bresennol yn gorfforol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran ohono lofnodi eu henwau ar y dalenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb. Rhaid i bob Aelod sy'n mynychu cyfarfod drwy ddulliau o bell e-bostio Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gadarnhau eu presenoldeb cyn i bob cyfarfod ddod i ben.

**4.24 <u>Gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg</u>**

Ceir gwahardd aelodau'r cyhoedd a'r wasg dim ond yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 15 y Cyfansoddiad hwn neu Reol 4.26 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

**4.25 <u>Ymddygiad Aelodau</u>**

4.25.1 Siarad mewn Cyfarfodydd

Pan fydd cynghorydd yn siarad yn y Cyngor Llawn mae'n rhaid iddo ef/iddi hi annerch y cyfarfod trwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un cynghorydd yn mynegi eu bod yn bwriadu siarad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i un siarad. Mae'n rhaid i gynghorwyr eraill aros yn dawel tra bod cynghorydd yn siarad oni bai eu bod yn dymuno codi pwynt trefn neu roi esboniad personol.

4.25.2 Y Cadeirydd yn Siarad

Pan fydd y Cadeirydd yn siarad yn ystod trafodaeth, mae'n rhaid i unrhyw gynghorydd sy'n siarad ar y pryd fod yn dawel.

4.25.3 Peidio â chlywed mwy gan Gynghorwyr

Os bydd cynghorydd yn diystyru dyfarniad y Cadeirydd yn gyson trwy ymddwyn yn amhriodol neu'n llesteirio busnes yn fwriadol, caiff y Cadeirydd gynnig na ddylid clywed mwy gan y cynghorydd. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

4.25.4 Gofyn i Gynghorydd Adael y Cyfarfod

Os bydd y cynghorydd yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, caiff y Cadeirydd gynnig bod y cynghorydd yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.



DRAFT

**4.26 Aflonyddwch gan y Cyhoedd**

4.26.1 Symud Aelod o'r Cyhoedd

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo ef/iddi hi gael ei symud o ystafell y cyfarfod [neu ei symud o'r platfform ar-lein y mae'n ei ddefnyddio er mwyn cael mynediad i'r cyfarfod o leoliad arall.

4.26.2 Clirio Rhan o Ystafell y Cyfarfod

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, caiff y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

4.26.3 Clirio Llwyfan Cyfarfod Ar-lein

Os oes aflonyddwch cyffredinol ar y platfform cyfarfod ar-lein caiff y Cadeirydd alw am i'r platfform cyfarfod ar-lein gael ei dawelu trwy ddiffodd y meic, ei atal dros dro neu ai gau. Bydd y mesurau y mae eu hangen i sicrhau ymddygiad priodol yn y cyfarfod yn ôl disgresiwn llwyr y Cadeirydd.

**4.27 Filmio a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd**

Caniateir ffilmio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd cyn belled nad yw'n tarfu ar y cyfarfod.

**4.28 Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd**

4.28.1 Bydd cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor yn cael eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor fel y gall aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod weld a chlywed y trafodaethau. Bydd copïau o'r cyfarfod ar gael ar-lein am 365 diwrnod ar ôl y cyfarfod.

**4.29 Atal a Diwygio Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor**

4.29.1 Atal

Ceir atal holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, ac eithrio Rheolau 4.17.4, 4.17.5, 4.21.6 a 4.22.2, trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono neu gynnig heb rybudd os yw o leiaf hanner nifer cyfan y cynghorwyr yn bresennol. Bydd yr ataliad mewn grym am barhad y cyfarfod yn unig. Gellir atal Rheol 4.17.54 trwy gynnig y rhoddir rhybudd ohono yn unig ac mae'n rhaid i'r cynnig gael ei gefnogi gan o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorwyr hynny sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.29.2 Diwygio

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at, amrywio neu ddirymu Rheolau Gweithdrefnol y Cyngor, pan fydd yn cael ei gyflwyno a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth hyd nes cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

**4.30 Cais i'r Cabinet, Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau**

Mae holl Reolau Gweithdrefnol y Cyngor yn berthnasol i gyfarfodydd y Cyngor Llawn. Nid yw'r un o'r rheolau yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim ond Rheolau 4.12 i 4.15, 4.16 i 4.18.18, 4.20 i 4.30 (ond nid Rheol 4.25.1) sy'n berthnasol i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau.

### 4.31 Penodi Dirpwryon ar Gyrff y Cyngor

4.31.1 Ni fydd y rheolau dirprwyo yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion neu'r Pwyllgor Trwyddedu.

4.31.2 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau eraill mewn rhannau eraill o'r Cyfansoddiad, caniateir i unrhyw gynghorydd weithredu fel dirprwy ar un o Gyrff Aelodaeth.

4.31.3 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn caniatáu cais gan unrhyw arweinydd grŵp gwleidyddol i benodi dirprwy, cyn belled ag y bo'r dirprwy yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol.

4.31.4 Er mwyn bod yn gymwys i fod yn ddirprwy ar Bwyllgor Penodi neu Bwyllgor Apeliadau, mae'n rhaid bod cynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol yn y gweithdrefnau perthnasol a'r gyfraith.

4.31.5 Bydd gan ddirprwyon holl bwerau a dyletswyddau unrhyw aelod arall o'r pwyllgor, ond ni fyddant yn gallu arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau arbennig sy'n arferadwy gan yr unigolyn y maent yn dirprwyo ar ei gyfer.

4.31.6 Caiff dirprwyon fynychu cyfarfodydd yn y rhinwedd honno dim ond.

(a) i gymryd lle'r cynghorydd y maent wedi'u dynodi i ddirprwyo ar ei gyfer;

(b) pan fydd y cynghorydd a benodwyd yn absennol am y cyfarfod cyfan; a

(c) phan fydd yr arweinydd grŵp perthnasol wedi hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am y bwriad o ddirprwyo o leiaf un diwrnod cyn i'r cyfarfod perthnasol ddechrau.

DRAFT

# ATODIAD 2

<table>
<tr><td>1</td><td>
2.2 Diffiniadau yn y Cyfansoddiad
“Cabinet” prif gorff gwneud penderfyniadau gwleidyddol y Cyngor a benodwyd gan Arweinydd y Cyngor ac sy'n atebol iddo. Gydag awdurdod yr Arweinydd, gall aelodau unigol o'r Cabinet wneud penderfyniadau o fewn meysydd cyfrifoldeb a ddynodwyd iddynt gan yr Arweinydd. Ni all y Cabinet gynnwys mwy na 10 cynghorydd, gan gynnwys yr Arweinydd;
Sylwadau
<ul>
<li>Daw'r geiriad hwn yn uniongyrchol o'r Cyfansoddiad Model newydd</li>
<li>Newid o'r Pwyllgor Gwaith i'r Cabinet</li>
<li>Yn rhoi gwell dealltwriaeth i'r cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau lefel uchel y Cabinet</li>
<li>Yn darparu gwell atebolrwydd a thryloywder</li>
<li>Yn dod â ni yn unol â phob prif gyngor arall yng Nghymru</li>
<li>Mae gan y cynnig hwn gytundeb y Prif Weithredwr</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>2</td><td>
2.4 Dyletswydd i Fonitro ac Adolygu’r Cyfansoddiad
Bydd y Swyddog Monitro yn monitro ac adolygu’r modd y gweithredir y Cyfansoddiad er mwyn sicrhau bod nodau ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu rhoi ar waith yn llawn. Bydd y Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am adolygu’n barhaus y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a amlinellir yn Adran 17 y Cyfansoddiad a’r Rheolau Gweithdrefn Contractau a amlinellir yn Adran 18 y Cyfansoddiad a bydd yn gwneud unrhyw newidiadau a diwygiadau angenrheidiol fel y bo’r angen o bryd i’w gilydd. Bydd Swyddog Adran 151 yn adrodd am unrhyw ddiwygiadau a wnaed i Adran 17 ac 18 yng nghyfarfod nesaf y Cyngor er mwyn eu cofnodi.
Sylwadau
<ul>
<li>Daw'r geiriad hwn yn uniongyrchol o'r Cyfansoddiad Model newydd.</li>
<li>Am y tro cyntaf, byddai hyn yn rhoi awdurdod i'r Swyddog Adran 151 newid y Rheolau'r Gweithdrefn Ariannol a’r Rheolau Gweithdrefn Cytundebau ac adrodd ar y newidiadau hynny i'r Cyngor llawn. Yn amlwg, bydd unrhyw newidiadau materol, p'un ai fel rhan o adolygiad ehangach, neu unrhyw newidiadau perthnasol ad hoc, yn destun ymgynghori ag aelodau.</li>
<li>Ymgynghorwyd â'r Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 a chytunir ar y cynnig hwn.</li>
<li>Byddai hyn yn cefnogi cyflymder y newid, oherwydd mae’r Rheolau Gweithdrefn Cytundebau i fod i gael eu diwygio a'u diweddaru, er bod y gwaith hwnnw y tu allan i gwmpas yr adolygiad cyfansoddiadol hwn.</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

DRAFT

| | |
|---|---|
| 3 | 2.6 Newidiadau i'r Cyfansoddiad<br><br>2.6.1 Cymeradwyo<br><br>Yn amodol ar baragraffau 2.6.2 a 2.6.3 isod, bydd newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn dim ond ar ôl ystyried cynnig gan y Swyddog Monitro neu yn unol ag argymhelliad gan y Cabinet neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Yr awgrym yma yw y gellir cyflwyno newidiadau cyfansoddiadol yn uniongyrchol i'r Cyngor gan y Cabinet, neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, neu'r Swyddog Monitro.<br>• Mae'r opsiwn o gynigion gan y Cabinet, neu gan y Swyddog Monitro, i'r Cyngor llawn yn cael ei adlewyrchu yn y Model newydd. Rwyf wedi cynnwys y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fel llwybr amgen i adlewyrchu cylch gorchwyl newydd y Pwyllgor.<br>• Mae'r broses bresennol yn "boenus" o araf. Byddai cynigion uniongyrchol gan y Cabinet, neu'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, neu'r Swyddog Monitro, yn cyflymu hyn yn sylweddol. Byddai gwneud penderfyniadau terfynol yn dal i fod yn nwylo'r Cyngor llawn a byddai unrhyw beth dadleuol yn parhau'n destun ymgynghoriad. |

| | |
|---|---|
| 4 | 3.1.2 Gwybodaeth a fydd ar gael i Gynghorwyr y Cyngor<br><br>(b) Yn ogystal â hyn, caiff cynghorydd weld unrhyw wybodaeth y mae angen iddo ef neu iddi hi ei gwybod er mwyn cyflawni ei rôl fel cynghorydd y Cyngor (a adwaenir fel arall fel "angen gwybod"). Ni fydd cynghorydd yn rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig (fel y'i diffinnir yn Adran 155) heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un nad oes ganddynt hawl i'w gwybod.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Mae hyn yn adlewyrchu safbwynt cyfraith gwlad (y gyfraith a wnaed gan y Llysoedd) a dyma sut yr ydym bob amser wedi gweithredu ond nawr bydd y Cyfansoddiad yn dweud hynny'n eglur, yn unol â'r Model newydd. |

| | |
|---|---|
| 5 | 4.6.25 penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol, ac eithrio swyddi gwag yn ystod y flwyddyn a benodir gan y Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori ag arweinyddion grwpiau/aelodau digyswllt neu pan fydd yn rhaid gwneud y penodiad o blith aelodau'r Cabinet; os felly, bydd yr Arweinydd yn gwneud penodiadau o'r fath bob amser;<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Nid yw hyn yn dod o'r Cyfansoddiad Model newydd ond mae'n adlewyrchu sut rydym yn gweithredu'n ymarferol. Hynny yw, mae'r Cyngor llawn yn penodi'n |

DRAFT

flynyddol i'r cyrff allanol sy'n gofyn am aelod o'r Cyngor, gydag unrhyw swyddi gwag yn ystod y flwyddyn yn cael eu llenwi gan y Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori ag Arweinwyr Grŵp/aelodau digyswllt ac mae unrhyw benodiadau i gyrff allanol sydd angen aelodau'r Cabinet yn cael eu penodi bob amser gan yr Arweinydd.

- Mae hyn wedi'i gynnwys er mwyn eglurder oherwydd bod cwestiynau ar y pwynt hwn yn codi yn rheolaidd.

6

4.10.1.1 Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis cynghorwyr (“Blwyddyn Etholiad”), cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 diwrnod o ymddeoliad y cynghorwyr sy’n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ym mis Mawrth, mis Ebrill neu fis Mai (“Blwyddyn Gyffredin”).

**Sylwadau**

- Mae hwn yn newid sylfaenol. Gweithredwyd y trefniadau presennol yn wreiddiol gan y Comisiynwyr
- Mae hyn yn cael ei gymryd o'r Cyfansoddiad Model newydd
- Mae ganddo gefnogaeth y Prif Weithredwr, sydd wedi gofyn a ddylid diwygio'r cynnig ymhellach er mwyn galluogi Arweinydd i nodi aelodau'r Cabinet a'u cyfrifoldebau'n ysgrifenedig i'r holl aelodau o fewn amser penodedig ar ôl cyfarfod y Cyngor e.e. o fewn 7 diwrnod. Byddai hyn yn galluogi trafodaeth ac ystyriaeth briodol ynghylch pwy fydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.
- Mae'r cynnig yn dileu y ddau gyfarfod Cyngor ar ôl etholiadau llywodraeth leol
- Fy marn i yw, drwy gael gwared ar hyn, ei bod yn dod â'r diffyg cynnydd sy'n dilyn pob etholiad i ben.

7

4.10.1.3 (f) derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan arweinyddion grwpiau gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd; bydd y gymeradwyaeth honno wedi’i chytuno ymlaen llaw cyn y cyfarfod;;

**Sylwadau**

- Rwyf wedi cynnwys hyn am y tro cyntaf yn y Cyfarfod Blynyddol ac mewn cyfarfodydd cyffredin er mwyn rheoli'r "sgrambl" sy'n digwydd yn aml ar ddechrau cyfarfodydd lle mae'r Cadeirydd, ar ôl cytuno i un cyhoeddiad, yn canfod bod yn rhaid iddynt gytuno i gyhoeddiadau lluosog.
- Nid yw'r ddarpariaeth hon yn y Cyfansoddiad Model newydd, sy'n fwy cyfyngol.

DRAFT

| | |
|---|---|
| 8 | 4.11.9 derbyn adroddiadau ynglŷn â busnes trefniadau ar y cyd a sefydliadau allanol a derbyn cwestiynau ac atebion arnynt;<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Ar hyn o bryd mae gennym adran yn y Rheolau Gweithdrefnol sy'n ymdrin â gofyn cwestiynau am yr Awdurdod Tân a'r Heddlu. Roedd yn arfer bod yn eitem sefydlog ond mae wedi disgyn allan o blaid yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br>• Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd ac rwyf wedi ei gynnwys oherwydd bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch anghysondeb cynghorwyr sy'n bwydo'n ôl oddi wrth cyrff allanol.<br>• Rwyf wedi ei gynnwys oherwydd ei fod yn y Model ond, yn ymarferol, fy marn i yw y gallai hyn fod yn broblem i'r Cadeirydd, ac yn cymryd llawer o amser, o gofio bod y Cyngor yn penodi 89 o gyrff allanol.<br>• Fy nghynnig fyddai newid geiriad y Model i gynnwys y Cyngor llawn yn derbyn adroddiadau o'r fath lle mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad neu ymateb i ymgynghoriad ac ati, ac y dylid ymdrin ag "adborth" gan gyrff allanol drwy brotocol ar wahân sy'n nodi'n benodol y cyrff allanol allweddol a rhoddi disgwyliadau clir i'r cynghorwyr hynny friffio swyddogion/aelodau cabinet mewn perthynas â chyrff allanol allweddol. |

| | |
|---|---|
| 9 | 4.11.13 derbyn cwestiynau gan y cyhoedd, a rhoi atebion iddynt, mewn perthynas â materion y mae'r Cadeirydd o'r farn eu bod yn berthnasol i swyddogaethau'r Cyngor<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd.<br>• Os yw hyn i'w fabwysiadu o gwbl, mae dau fodel yn y bôn. Yn gyntaf, caniatáu i aelodau'r cyhoedd (drwy broses debyg i'r un yn y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a Chraffu) fynychu yn bersonol/o bell a gofyn cwestiynau penodol mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor. Yr ail opsiwn yw darparu cynllun i aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwestiynau yn ysgrifenedig, gyda'r Cadeirydd wedyn yn cael y disgresiwn i ddewis nifer penodol o gwestiynau ar sail "cyntaf i'r felin", ac o fewn paramedrau penodol cydnabyddedig. Byddai'r egwyddorion hynny ar yr un trywydd â'r rhai a nodir yng Nghynllun Deisebau'r Cyngor.<br><br>• Y dewis i gynghorwyr felly, yw:-<br>  ○ Cadw'r status quo, sef cynghorwyr yn gofyn cwestiynau ar rybudd ar ran eu hetholwyr neu<br>  ○ Cymryd rhan mewn cyfarfodydd y Cyngor neu<br>  ○ Cwestiynau ysgrifenedig gan aelodau'r cyhoedd<br><br>• Fy argymhelliad fyddai naill ai cynnal y status quo neu ddyfeisio proses o gwestiynau ysgrifenedig ond peidio â mabwysiadu cynllun siarad cyhoeddus. Byddai hyn yn cymryd llawer o amser i'w reoli ar adeg lle mae problemau capasiti/recriwtio. |


DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Barn y Prif Weithredwr yw y dylid cadw'r status quo ond os bwriedir mabwysiadu'r broses cyfranogiad cyhoeddus, yna dylai fod yn gwestiynau ysgrifenedig ac yn destun adolygiad ar ôl amser penodol e.e. 12 mis efallai? |

| | |
|---|---|
| 10 | 4.11.14(b) Mewn cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor, gall trefnydd deiseb gyflwyno unrhyw ddeiseb ar yr agenda a gyflwynwyd o dan Gynllun Deisebau'r Cyngor. Caniateir i drefnydd y ddeiseb gael pum munud i gyflwyno ei ddeiseb cyn bod y cynghorwyr yn ei thrafod.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Mae hyn yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor yn ddiweddar. Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus bellach wedi'i chynnwys yn y Cyfansoddiad yn dilyn cymeradwyaeth y Cyngor llawn ym mis Hydref 2023. |

| | |
|---|---|
| 11 | 4.13.2 Anfonir gwŷs at gynghorwyr i'w cyfeiriad electronig enwebedig. Os yw cynghorydd yn gofyn i'w wŷs gael ei anfon atynt ar bapur, rhaid i'r cynghorydd anfon cais ysgrifenedig, gan gynnwys manylion ei gyfeiriad post enwebedig, at y Prif Weithredwr. Bydd unrhyw wŷs a gyfeirir at yr aelod ac a adewir yn y cyfeiriad hwnnw neu a anfonir drwy'r post yn cael ei ystyried fel gwasanaeth digonol o ran cyflwyno gwŷs.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol bresennol lle mae gan gynghorwyr hawl i dderbyn gwŷs i gyfarfod drwy gopi caled drwy'r post. Nid oes hawl i dderbyn yr adroddiadau er y gellir gwneud ceisiadau am gopïau caled o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd/Deddf Cydraddoldeb.<br>• Daw'r ddarpariaeth hon o'r Cyfansoddiad Model newydd ac mae'n adlewyrchu'r arfer presennol yma. |

| | |
|---|---|
| 12 | 4.16.4 Rhybudd o Gwestiynau<br><br>Gall cynghorydd ofyn cwestiwn o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3 os yw nail ai:<br><br>(a) wedi rhoi o leiaf 5 o ddyddiau gwaith clir o rybudd yn ysgrifenedig ynglyn â'r cwestiwn i'r Prif Weithredwr a bod y rhybudd o'r cwestiwn wedi'i lofnodi gan y cynghorydd; neu<br><br>(b) os yw'r cwestiwn yn ymwneud â materion brys yn ôl cydsyniad y Cadeirydd a'u bod wedi derbyn caniatâd y Cynghorydd y cyflwynir y cwestiwn iddo neu iddi a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr a'i lofnodi gan y cynghorydd erbyn hanner dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod. Derbynnir rhybudd ysgrifenedig o gwestiynau ar ffurf copi caled neu o gyfrif ebost y Cyngor y cynghorydd.<br><br>**Sylwadau** |



DRAFT

- Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd.
- Mae'n dileu'r angen am wrth-lofnod gan arweinwyr grŵp a gall cwestiynau fod naill ai ar ffurf copi caled neu o gyfrif e-bost swyddogol y Cyngor. O ystyried y "pum diwrnod gwaith clir o rybudd", dylai symleiddio a chyflymu'r broses o gyflwyno cwestiynau wneud y broses yn haws i aelodau.

13 4.16.5 Uchafswm Nifer y Cwestiynau

Gall cynghorydd ofyn un cwestiwn yn unig o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3. Uchafswm nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor yw 10 ac os yw nifer y cwestiynau yn fwy na 10 dim ond y 10 cwestiwn cyntaf a dderbynnir gan y Prif Weithredwr fydd yn cael eu cyhoeddi ar yr agenda. Bydd unrhyw gwestiynau sy'n weddill heb eu hateb yn cael eu hailgyflwyno i'r Prif Weithredwr ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor.

**Sylwadau**

- Mae'r rhain yn gwestiynau ar rybudd ac nid ar adroddiadau oherwydd, fel y gŵyr cynghorwyr, nid oes cyfyngiadau ar y nifer o gwestiynau â ofynnir ar adroddiadau, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cadeirydd. Rwyf wedi ei gyfyngu i ddim mwy nag un i bob aelod, 10 yn gyffredinol, gyda dim ond y 10 cwestiwn dilys cyntaf a dderbynir gan y Prif Weithredwr i'w gosod ar y rhaglen. Rwyf wedi cynnwys darpariaeth lle mae'n rhaid ailgyflwyno unrhyw gwestiynau eraill. Mae cyfyngiad hefyd mewn mannau eraill o 60 munud i gyd ar gyfer cwestiynau ar rybudd.
- Nid yw hyn yn wahanol iawn i'r hyn sydd gennym nawr ond rwyf wedi cynnwys y ffaith bod cwestiynau nad ydynt yn cyrraedd y rhaglen yn "cwympo" yn awtomatig. Nid ydym yn cynnwys hynny'n benodol ar hyn o bryd ond mae wedi bod yn arfer i ni erioed ac felly mae bellach wedi'i nodi'n benodol.
- Mae nifer y cwestiynau fesul cynghorydd, nifer y cwestiynau yn gyffredinol a hyd "amser cwestiynau" y cynghorwyr i gyd yn faterion o ddewis lleol. Rwyf wedi ceisio sicrhau'r cydbwysedd rhwng rhoi cyfle i gynghorwyr ofyn cwestiynau, gan sicrhau hefyd bod eitemau eraill ar y rhaglen yn cael amser rhesymol ac na ddylai cyfarfodydd ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod arferol o dair awr. Efallai y bydd cynghorwyr am ystyried a yw hyn yn taro'r cydbwysedd cywir.

DRAFT

14 4.16.7 Cynnwys y Cwestiynau

Rhaid i gwestiynau o dan Reol 4.16.2 neu 4.16.3, ym marn y Prif Weithredwr:

(a) beidio â chynnwys unrhyw fynegiadau o farn;
(b) bod yn berthnasol i faterion y mae gan y Cyngor bolisi arnynt neu y gallai bennu polisi arnynt; (?)
(c) peidio ag ymwneud â chwestiynau ynglŷn â ffaith; (?)
(d) beidio ymwneud â gwybodaeth sydd eisoes ym meddiant y cynghorydd neu sydd wedi'i chyhoeddi, naill ai mewn adroddiad pwyllgor, neu fel arall;

(e) ymwneud â mater y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano, neu sy'n effeithio ar yr ardal, neu lle mae gan y Cyngor ddiddordeb dilys;

(f) beidio â bod o natur bersonol neu'n feirniadol o gymhellion neu gymeriad personol eraill.

**Sylwadau**

- Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd
- Mae'r rhan fwyaf o'r geiriad yn iawn ond rwyf wedi fy nghyfareddu gan baragraffau (b) a (c). Gallai'r Cyngor gael polisi ar bron unrhyw beth a pham na ddylid caniatáu i gynghorwyr ofyn cwestiynau ffeithiol? Bydd hefyd yn anodd iawn, yn enwedig o ystyried yr amserlen fer arferol rhwng derbyn cwestiynau a chyhoeddi'r rhaglen, i swyddogion wneud asesiad ar bwyntiau (b) a (c), yn enwedig os oes llawer o gwestiynau'n cael eu cyflwyno.
- Fy nghynnig fyddai bod (b) a (c) yn cael eu gwrthod.

15

4.16.8(c) pan na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig a ddosberthir i'r holl gynghorwyr o fewn cyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfodydd, ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor. Maes o law fe'u hychwanegir at gofnodion y cyfarfod.

**Sylwadau**

- Rydym eisoes yn gwneud y rhan fwyaf o hyn ond nid ydym yn cyhoeddi'r ymatebion ar wefan y Cyngor, nac yn eu hychwanegu at gofnodion y cyfarfod. Argymhellir yn awr ein bod yn gwneud y ddau.
- A hoffai aelodau ddiffinio "cyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod"? Beth mae aelodau yn ei ystyried yn gyfnod rhesymol? A ddylid cytuno ar hyn yn y Cyngor yn dibynnu ar natur y cwestiwn a maint yr ymchwil ac ati sydd ei angen er mwyn darparu ateb priodol?

16

4.17.4 Cynnig i Gael Gwared ar yr Arweinydd

(a) Ni ellir cyflwyno cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd oni bai bod y rhybudd o'r cynnig yn cael ei lofnodi gan o leiaf 9 o gynghorwyr sy'n cynnwys cynghorwyr o ddau grŵp gwleidyddol o leiaf. Gweler Adran 6.3.2.

(b) Er mwyn i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, mae'n rhaid iddo gael cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o'r cynghorwyr hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

(c) Ni ellir cyflwyno cynnig i gael gwared ar yr Arweinydd fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis.

**Sylwadau**

- Daw hyn yn uniongyrchol o'r Cyfansoddiad Model newydd.

DRAFT

| | |
|---|---|
| | • Y sefyllfa gyfreithiol yw bod yn rhaid cynnal pleidlais o ddiffyg hyder mewn Arweinydd gyda mwyafrif o ddau draean o leiaf.<br>• Mae gweddill y ddarpariaeth hon yn fater o ddewis lleol. Felly mae'r Model yn benodol am gworwm (chwarter y nifer o gynghorwyr) ac na fydd cynnig o'r fath yn cael ei ystyried fwy nag unwaith mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.<br>• Byddwn yn argymell cynnwys y cworwm a'r cyfyngiad o 12 mis er mwyn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng pŵer sylweddol Arweinydd, a hyd tymor llawn, gydag atebolrwydd yn ystod y tymor, ond gan sicrhau lefel briodol o sefydlogrwydd i'r Cyngor hefyd.<br>• Nid yw'r mwyafrif o ddwy ran o dair yn fater o ddewis lleol ond mae'r cyfyngiad cworwm a 12 mis yn fater i aelodau. Y naill ffordd neu'r llall, bydd yn ddefnyddiol cael eglurder. |

| | |
|---|---|
| 17 | 4.17.5 Un Cynnig fesul Cynghorydd<br><br>Ni chaiff unrhyw gynghorydd roi rhybudd o fwy nag un cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Cyngor, ac eithrio gyda chaniatâd y Prif Weithredwr.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd.<br>• Mae hyn yn cyfyngu ar nifer y cynigion ond yn rhoi disgresiwn i'r Prif Weithredwr os oes mater sylweddol o ddiddordeb lleol. Mewn gwirionedd, dim ond cyfyngiad ar aelodau yw hyn os nad ydynt yn gysylltiedig.<br>• Rwy'n credu bod hyn yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng hwyluso aelodau i godi materion sy'n peri pryder er mwyn eu trafod a chael penderfyniad, a galluogi eitemau ar y rhaglen i symud ymlaen. |

| | |
|---|---|
| 18 | 4.19 Trafodaeth ynghylch Cyflwr y Sir<br><br>4.19.1 Galw Trafodaeth<br><br>Caiff yr Arweinydd alw trafodaeth ynghylch cyflwr y Sir bob blwyddyn ar ddyddiad ac ar ffurf y cytunir arnynt gyda'r Cadeirydd.<br><br>4.19.2 Ffurf y Drafodaeth<br><br>Bydd yr Arweinydd yn penderfynu ar ffurf y drafodaeth gyda'r nod o alluogi cymaint o gyfranogiad gan y cyhoedd a chyhoeddusrwydd â phosibl. Gallai hyn gynnwys cynnal gweithdai a digwyddiadau eraill cyn neu yn ystod y drafodaeth.<br><br>4.19.3 Cadeirio'r Drafodaeth<br><br>Cadeirir y drafodaeth gan y Cadeirydd<br><br>4.19.4 Canlyniadau'r Drafodaeth |



DRAFT

Bydd canlyniadau’r drafodaeth yn cael eu lledaenu mor eang â phosibl yn y gymuned ac ymhlith asiantaethau a sefydliadau yn yr ardal sy’n gweithio mewn partneriaeth weithredol â’r Cyngor, a byddant yn cael eu hystyried gan yr Arweinydd wrth gynnig y Gyllideb a’r Fframwaith Polisi i’r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Sylwadau**

- Daw'r cynnig hwn yn uniongyrchol o'r model newydd.
- Ein fersiwn gyfredol o'r cysyniad hwn yw Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd.
- Nid yw Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd, na chyflwr dadl y Sir, yn ofyniad statudol, gan wneud pob un yn ddewis lleol.
- Mae'r Prif Weithredwr wedi cynnig bod Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor yn cael ei gyplysu ag Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd i uno'r rhain mewn un ddadl yn y Cyngor llawn; efallai gellid gwahodd rhanddeiliaid allweddol sydd wedi eu hadnabod er mwyn mynychu'r cyfarfod hwnnw?
- Fel y disgrifir yn y Model newydd, mae hwn yn ddarn sylweddol o waith a fyddai'n golygu llawer o gapasiti swyddogion.  Mae ganddo fanteision o ran cynwysoldeb, yn enwedig y potensial i gynnwys y cyhoedd ac ati, ond bydd yn llafurus iawn ar adeg pan fo adnoddau'n brin.  Mae angen cofio hefyd bod dyletswydd statudol bellach i ymgynghori mewn perthynas ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor.
- Mae'r Prif Weithredwr yn pryderu ynghylch cyflwyno cyflwr y ddadl Sirol, yng nghyd-destun materion capasiti ond hefyd oherwydd y byddai'n "ail-droedio" yr un tir a fyddai eisioes wedi cael sylw yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd ac felly nid yw'n ffafrio mabwysiadu'r cynnig hwn.
- Yr opsiynau felly yw:-

    - Cynnal y status quo h.y. Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd
    - Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd wedi ei gyfuno â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol a/neu Adroddiad Perfformiad Blynyddol gyda gwahoddiad neu heb wahoddiad i randdeiliaid allweddol i glywed dadleuon y Cynghorwyr, ond ddim i gymryd rhan.
    - Parhau â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ond dileu Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd gan nad yw hyn yn ofyn statudol.
    - Dileu Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd a rhoi dadl ar gyflwr y sir yn ei le, fel y disgrifir yn y Cyfansoddiad Model. Byddai'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn parhau, oherwydd ei fod yn ofyniad statudol beth bynnag.

DRAFT

19 4.22.1 Llofnodi’r Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn cael eu llofnodi yn gofnod cywir. Yr unig ran o’r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

**Sylwadau**

- Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd
- Cadeirydd i gynnig pob cofnod ac yn cyflwyno'r defnydd o'r term "dilysu" am y tro cyntaf.

20

4.22.2 Dim Gofyniad i Lofnodi Cofnodion Cyfarfod Blaenorol mewn Cyfarfod Arbennig

O ran unrhyw gyfarfod, pan fydd y cyfarfod nesaf at ddiben llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a alwyd o dan baragraff 3 Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (cyfarfod arbennig), yna bydd y cyfarfod dilynol nesaf (sef cyfarfod a alwyd heblaw o dan y paragraff hwnnw) yn cael ei drin fel cyfarfod addas at ddibenion paragraff 41(1) a (2) Atodlen 12 yn ymwneud â llofnodi cofnodion.

**Sylwadau**

- Yn dod o'r Cyfansoddiad Model
- Eglurir na fydd cofnodion cyfarfod neu gyfarfodydd blaenorol yn cael eu hystyried mewn cyfarfodydd anghyffredin mwyach. Ar hyn o bryd, mater i ddisgresiwn y Cadeirydd yw hyn, os yw'r cofnodion drafft yn barod i'w cymeradwyo.

21

4.23 Cofnod o Bresenoldeb

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau sy'n bresennol yn gorfforol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran ohono lofnodi eu henwau ar y dalenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb. Rhaid i bob Aelod sy'n mynychu cyfarfod drwy ddulliau o bell e-bostio Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i gadarnhau eu presenoldeb cyn i bob cyfarfod ddod i ben.

**Sylwadau**

- Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model
- Byddai'n ddefnyddiol cael ateb digidol i hyn er mwyn ysgafnhau'r baich ar y Cadeirydd i "gymryd y gofrestr" ym mhob cyfarfod ond, os oes opsiwn o'r fath yn bodoli (a byddwn yn gwneud ymholiadau), nid yw'n debygol o fod yn fforddiadwy.
- Yn hytrach na chael cofrestr ddigidol (i'r rhai sy'n mynychu o bell) a phapur (i'r rhai sy'n mynychu'n bersonol) byddai'n well gan y Prif Weithredwr un gofrestr ddigidol gan fynychwyr yn hysbysu eu presenoldeb cyn diwedd y cyfarfod gyda'r swyddog pwyllgor perthnasol.

22

4.26.3 Clirio Llwyfan Cyfarfod Ar-lein

Os oes aflonyddwch cyffredinol ar y platfform cyfarfod ar-lein caiff y Cadeirydd alw am i'r platfform cyfarfod ar-lein gael ei dawelu trwy ddiffodd y meic, ei atal dros dro

DRAFT

| | |
|---|---|
| | neu ai gau. Bydd y mesurau y mae eu hangen i sicrhau ymddygiad priodol yn y cyfarfod yn ôl disgresiwn llwyr y Cadeirydd.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Yn cyflwyno'r cysyniad o "glirio" aelodau aflonyddgar o'r cyhoedd o blatfform ar-lein. Byddwn yn edrych ar alluoedd y system i weld a yw'n bosibl defnyddio'r dechneg hon mewn perthynas ag unrhyw unigolyn aflonyddgar, yn hytrach na chau'r platfform digidol, gan y byddai hyn yn annheg i eraill a allai fod yn bresennol trwy'r platfform hwnnw ond nad ydynt yn cynnal eu hunain mewn ffordd sy'n amharu ar y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| 23 | 4.27 Filmio a Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd<br><br>Caniateir ffilmio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol gan y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd cyn belled nad yw'n tarfu ar y cyfarfod.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd ac mae'n adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol sef y gall y cyhoedd ffilmio a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd, cyn belled nad ydynt yn amharu ar fusnes y Cyngor. Mater i ddisgresiwn y Cadeirydd fyddai hyn ynghylch â amharir ar y cyfarfod ai pheidio a gofynnir i'r unigolyn/unigolion dan sylw roi'r gorau i ffilmio ac, os nad ydynt yn barod i wneud hynny, byddai'n ofynnol iddynt adael y Siambr.<br>• Yn gyfreithiol, mae cynghorwyr hefyd yn cael ffilmio a defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd, ond cytunwyd yn unfrydol i beidio â gwneud hynny er mwyn rhoi eu sylw llawn i'r cyfarfod.<br>• Er bod y sefyllfa gyfreithiol bellach yn glir, mae wedi bod yn broblem yma yn y gorffennol, ac felly rwyf wedi tynnu sylw ato fel mater a allai fod yn ddadleuol. |

| | |
|---|---|
| 24 | 4.28 Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd<br><br>4.28.1 Bydd cyfarfodydd cyffredin o'r Cyngor yn cael eu darlledu'n fyw ar wefan y Cyngor fel y gall aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod weld a chlywed y trafodaethau. Bydd copïau o'r cyfarfod ar gael ar-lein am 365 diwrnod ar ôl y cyfarfod.<br><br>**Sylwadau**<br><br>• Nawr yn ei gwneud yn glir y bydd darllediad wedi'i recordio ar gael am 365 diwrnod ar ôl y cyfarfod. |

| | |
|---|---|
| 25 | 4.31 Penodi Dirpwryon ar Gyrff y Cyngor |

DRAFT

4.31.1 Ni fydd y rheolau dirprwyo yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet, y Pwyllgor Safonau, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion neu'r Pwyllgor Trwyddedu.

4.31.2 Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau eraill mewn rhannau eraill o'r Cyfansoddiad, caniateir i unrhyw gynghorydd weithredu fel dirprwy ar un o Gyrff Aelodaeth.

4.31.3 Bydd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn caniatáu cais gan unrhyw arweinydd grŵp gwleidyddol i benodi dirprwy, cyn belled ag y bo'r dirprwy yn perthyn i'r un grŵp gwleidyddol.

4.31.4 Er mwyn bod yn gymwys i fod yn ddirprwy ar Bwyllgor Penodi neu Bwyllgor Apeliadau, mae'n rhaid bod cynghorwyr wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol yn y gweithdrefnau perthnasol a'r gyfraith.

4.31.5 Bydd gan ddirprwyon holl bwerau a dyletswyddau unrhyw aelod arall o'r pwyllgor, ond ni fyddant yn gallu arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau arbennig sy'n arferadwy gan yr unigolyn y maent yn dirprwyo ar ei gyfer.

4.31.6 Caiff dirprwyon fynychu cyfarfodydd yn y rhinwedd honno dim ond.

(a) i gymryd lle'r cynghorydd y maent wedi'u dynodi i ddirprwyo ar ei gyfer;

(b) pan fydd y cynghorydd a benodwyd yn absennol am y cyfarfod cyfan; a

(c) phan fydd yr arweinydd grŵp perthnasol wedi hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd am y bwriad o ddirprwyo o leiaf un diwrnod cyn i'r cyfarfod perthnasol ddechrau.

**Sylwadau**

- Daw hyn o'r Cyfansoddiad Model newydd.
- Gall fod yn ddadleuol gan ei fod yn cyflwyno'r cysyniad, am y tro cyntaf yma, o amnewid cynghorwyr y tu allan i'r pwyllgorau hynny a restrir yn 4.31.1 ac yn ddarostyngedig i'r cafeat yn 4.31.4. Hynny yw, y rhai y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â hyfforddiant penodol.
- Rwy'n ffafrio'r cynnig hwn fel ei fod yn cefnogi'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ac yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i gynghorwyr sy'n gweithio neu sydd â rhwymedigaethau ac ymrwymiadau eraill, gan ei gwneud hi'n anodd iddynt fynychu cyfarfodydd weithiau. Mae'r Prif Weithredwr wedi awgrymu y dylid cyfyngu nifer yr eilyddion mewn unrhyw flwyddyn ddinesig i uchafswm nifer?
- Ni fydd amnewid yn cael unrhyw effaith ar y rheol statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cynghorydd fynychu o leiaf un cyfarfod ffurfiol o'r Cyngor neu'r Pwyllgor y maent yn aelod a enwir mewn perthynas ag ef, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o chwe mis.
- Yn amlwg, ni fydd amnewid yn berthnasol i aelodau digyswllt gan y byddai hyn yn gwyrdroi'r rheolau ar gydbwysedd gwleidyddol.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD:** | **29 Tachwedd 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Polisi Indemniadau'r Cyngor** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu a Chefnogi'r Polisi Presennol** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Robyn Jones, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol**<br>**RobynJones@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752134** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro**<br>**Lynn Ball@ynysmon.llyw.cymru**<br>**01248 752586** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion (Cymru) 2006 ('y Gorchymyn') yn caniatáu i awdurdodau lleol gynnig indemniad (ac yswiriant) i aelodau a swyddogion wrth gyflawni dyletswyddau eu rolau perthnasol.

Yn 2011 fe benderfynodd y Cyngor hwn fabwysiadu'r pŵer a roddwyd iddo o dan y Gorchymyn drwy gynnig indemniadau i aelodau a swyddogion yn unol â pholisi ('y Polisi') a fabwysiadwyd ar yr un pryd.

Yn 2013 cafodd y Polisi ei ddiwygio i gynnwys argymhelliad gan Lywodraeth Cymru sef y dylai unrhyw indemniad a gynigir i aelod etholedig o dan y Gorchymyn mewn achosion yn ymwneud ag amddiffyn honiad o dorri'r Cod Ymddygiad fod yn destun cap o ugain mil o bunnoedd.

## 2. Y POLISI PRESENNOL

Cafodd y Polisi ei adolygu ddiwethaf yn 2021 ac mae ar gael ar wasanaeth mewnrwyd y Cyngor (MonITor a'r Porth Polisi). Mae copi o'r Polisi presennol ynghlwm.

Yn ddiweddar mae nifer o aelodau etholedig wedi holi am y Polisi ar ôl gweld cyfeiriadau tuag ato a'r Is-bwyllgor Indemniadau (sy'n ymddangos ar y rhestr o Bwyllgorau mewn adroddiadau cyfnodol i'r Cyngor llawn ar gydbwysedd gwleidyddol).

Dyma gyfle felly i gyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor hwn ar y Polisi gan ei fod yn berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor gan ei fod yn ymwneud ag adnodd sydd ar gael i aelodau etholedig wrth gyflawni eu swyddogaethau democrataidd.

## 3. GWEITHREDU'R POLISI

Mae'r Cyngor wedi sefydlu Is-Bwyllgor Indemniadau sy'n gwneud penderfyniad ar geisiadau am indemniad sy'n cael eu cyflwyno yn unol â'r Polisi. Dim ond ychydig bach iawn o geisiadau sydd wedi cael eu cyflwyno erioed ac nid oes unrhyw geisiadau wedi cael eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Hyd yn oed cyn yr argymhelliad gan Lywodraeth Cymru i osod cap ar indemniadau, roedd yr Is-bwyllgor yn ystyried gosod cap ar unrhyw indemniadau cyn eu caniatáu.

Mae'r Polisi'n cadw'n gaeth at delerau'r Gorchymyn sy'n rhoi'r hawl i ganiatáu indemniadau. Mae yswiriant y Cyngor eisoes yn cynnig indemniad ar gyfer y rhan fwyaf o faterion y gellir eu hindemnio. Felly, mae'r rhan fwyaf o weithgareddau a gyflawnir gan swyddogion ac aelodau yn rhinwedd eu swyddogaethau swyddogol ar ran y Cyngor wedi'i diogelu gan yswiriant felly nid oes angen indemniad ychwanegol, penodol.

Mae gan y Cyngor yswiriant ar gyfer aelodau etholedig a swyddogion os caiff unrhyw gamau eu cymryd y neu herbyn hwy fel unigolion yn hytrach na'r Cyngor ei hun. Mae'n hanfodol bod y gweithgareddau y cwynir yn eu cylch yn ymwneud ag awdurdod perthnasol aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor. Mae'r yswiriant ar gyfer honiad o ddifenwad yn erbyn aelod etholedig yn mynnu cyfraniad o 10% tuag at unrhyw gostau neu iawndal a ddyfernir.

Mae'r yswiriant, wrth gwrs, yn cael ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau manylach, ac, yn y pen draw, yswiriwr y Cyngor fydd yn penderfynu os ydi'r polisi yswiriant yn diogelu'r mater unigol ai peidio.

Mae un maes lle nad oes yswiriant ar ei gyfer, ac sydd yn dod o dan gwmpas y Gorchymyn a'r Polisi, sef y pŵer i gynnig indemniad i aelod etholedig i ymorol am gostau yn gysylltiedig ag amddiffyn honiad o dorri Cod Ymddygiad y Cyngor.

Mae'r Polisi'n rhoi'r disgresiwn i'r Is-bwyllgor ganiatáu indemniad yn achos honiad o dorri'r Cod. Ond mae'r Polisi hefyd yn nodi a darparu canllaw i'r Is-bwyllgor ar y materion y dylid eu hystyried a'r amodau a chyfyngiadau posib y dylid eu gosod wrth ganiatáu indemniad.

Os canfyddir bod aelod etholedig wedi torri'r Cod a'i fod yn cael ei wahardd neu ei ddiarddel, mae'r ddeddf yn mynnu bod rhaid iddo ef/hi ad-dalu'r indemniad. Os ydi'r gosb yn llai difrifol na gwaharddiad y Pwyllgor Safonau'r Cyngor fydd yn penderfynu a ddylid ad-dalu'r indemniad ai peidio.

Bydd y Polisi'n cael ei adolygu'n ffurfiol yn gynnar yn 2024, a bydd swyddogion yn manteisio ar y cyfle i geisio barn y pwyllgor hwn ar unrhyw faterion y dylid eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

**4. ARGYMHELLIAD**

Gan fod y Polisi hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor llawn bydd rhaid i unrhyw newidiadau sylweddol gael eu cadarnhau ganddo. Fodd bynnag, caniateir i fân newidiadau i'r Polisi (megis newid geiriad neu eglurhad) gael eu gwneud gan y Swyddog Monitro o dan bwerau dirprwyedig.

Yn amodol ar yr uchod, gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

(a) Nodi'r Polisi a'i bwrpas, sef arfer y pwerau a roddir i'r Cyngor gan y Gorchymyn;

(b) Ystyried a ydynt am i’r adolygiad nesaf o’r Polisi fynd i’r afael ag unrhyw fater penodol.

# Cyngor Sir Ynys Môn

# POLISI INDEMNIADAU AR GYFER AELODAU A SWYDDOGION

# Fersiwn 1.2 (Ionawr 2021)

**Am y polisi hwn**

- Mae'r Cyngor yn meddu ar y disgresiwn i ganiatáu indemniadau ar gyfer costau cyfreithiol i aelodau ac/neu swyddogion, mewn rhai amgylchiadau
- Rhaid i unrhyw gais fodloni'r gofynion gweithdrefnol sydd wedi eu nodi yn y polisi
- Bydd unrhyw gais a dderbynnir ac sy'n cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol dan y polisi, yn cael ei benderfynu gan yr Is-Bwyllgor Indemniadau, sy'n is-bwyllgor o'r cyngor llawn
- Fel arfer, bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod yn breifat. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses y dylid ei dilyn yn y gwrandawiad.
- Mae'r polisi'n nodi'r cyfyngiadau y gellir eu gosod ar unrhyw indemniad a ganiateir, yr amgylchiadau lle gellir caniatáu indemniad ac unrhyw ddarpariaethau ar gyfer ad-daliad yn amodol ar gasgliad y trafodaethau

**Hanes Adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | 5/3/2013 | |
| 1.1 | Ionawr 2018 | Dim eu hangen |
| 1.2 | Ionawr 2021 | Newid teitl swydd |

| **Dyddiad yr adolygiad nesaf** | |
|---|---|
| Adolygir y Polisi hwn yn: | Ionawr 2024 |
| Cynhelir yr adolygiad gan: | Swyddog Monitro |

**Manylion cyswllt:**

**Lynn Ball - Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**
**lynnball@ynysmon.gov.uk / ffôn: 01248 752586**

Byddwn yn falch o ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## Y POLISI A'R WEITHDREFN AR GYFER INDEMNIADAU

**Materion yn ymwneud â Cheisiadau ar gyfer Indemniadau a Phenderfynu arnynt yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006**

### A. Gweithdrefn

1.1 Defnyddir y weithdrefn hon pan fo Cyngor Sir Ynys Môn ("y Cyngor") yn derbyn cais ("y Cais") gan Aelod neu Swyddog o'r Cyngor ("yr Ymgeisydd") am indemniad yn unol â Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau i Aelodau a Swyddogion)(Cymru) 2006 ("y Gorchymyn") gyda'r Cyngor wedi mabwysiadu pwerau'r Gorchymyn hwnnw trwy benderfyniad dyddiedig 12 Mai 2011.

1.2 Lle rhoddir indemniad bydd yn cyd-fynd â gofynion a chyfyngiadau'r Gorchymyn sy'n rhoi'r hawl i roi indemniad.

### 2. Y Cais

2.1 Fe all y Cais am indemniad osod allan unrhyw faterion y mae'r Ymgeisydd yn eu dymuno ond rhaid iddo gydymffurfio gyda'r anghenion lleiaf canlynol (lle bo'n berthnasol i'r Cais).

2.1.1 Rhaid iddo fod yn ysgrifenedig ac wedi'i gyfeirio i Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro y Cyngor.

2.1.2 Rhaid iddo fod wedi'i arwyddo gan neu ar ran yr Ymgeisydd.

2.1.3 Rhaid iddo nodi'r swm y ceisir yr indemniad amdano.

2.1.4 Rhaid nodi enw a chyfeiriad y Cyfreithiwr gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y mater lle ceisir cael indemniad ("y Mater"). Rhaid rhoi enw'r Cyfreithiwr unigol sy'n delio â'r mater ynghyd ag unrhyw berson arall sy'n ennill ffi ac a fydd yn delio gyda'r mater ynghyd â'u cyfraddau costau yn ôl yr awr neu ffi a gytunwyd a chrynodeb o'u profiad ym maes gwaith y Mater.

2.1.5 Nodi unrhyw fargyfreithiwr a gyflogwyd gan yr Ymgeisydd yn y Mater ynghyd â'r cyfraddau fesul awr y cytunwyd arnynt neu'r ffi briff y cytunwyd arni i'w cyflogi. At hyn, rhaid rhoi manylion am brofiad y bargyfreithiwr ym maes gwaith y Mater.

2.1.6 Nodi unrhyw dyst arbenigol neu unrhyw dyst arall y bydd yr Ymgeisydd yn talu ei g/chostau wrth ddelio gyda'r Mater ynghyd â manylion am y costau hyn yn ôl cyfraddau fesul awr, ffi gytunedig neu amcangyfrif o'r costau, fel bydd yr achos.

2.1.7 Rhoi rhyw syniad o gyfanswm y costau tebygol i'r Ymgeisydd wrth ddelio gyda'r Mater.

2.1.8 darparu manylion yr achos o blaid ac yn erbyn yr Ymgeisydd fel y gellir gwneud asesiad rhesymol o rinweddau'r mater cyn penderfynu ar y Cais.

2.1.9 rhoi sylw i'r materion hynny yn y Gorchymyn sy'n rhwystro neu'n cyfyngu rhoi indemniad, gan wneud hynny'n ddigon manwl fel y gall y Cyngor fodloni ei hun bod caniatáu indemniad yn disgyn o fewn y pwerau a roddir gan y Gorchymyn.

2.2 Er gwaethaf yr uchod, gall y Cyngor (yn gweithredu yn y lle cyntaf trwy ei Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol) ofyn am ragor o wybodaeth ar y mater gan yr Ymgeisydd os yw'n credu nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i benderfynu'n briodol ar y Cais yn unol â darpariaethau'r Gorchymyn.

2.3 Ni roddir unrhyw indemniad mewn perthynas ag unrhyw gostau a gafodd yr Ymgeisydd cyn cyflwyno cais i'r Cyngor y mae'n rhaid iddo gydymffurfio gyda gofynion Rhan 2 yma.

2.4 Nid yw unrhyw benderfyniad ar Gais yn rhwystro'r Ymgeisydd rhag cymryd unrhyw gamau y gwêl yn ddoeth wrth roi sylw i'r mater, yn amodol ar unrhyw delerau y gellir rhoi indemniad arnynt.

3 <u>Penderfynu'r Cais</u>

3.1 Cyfrifoldeb yr Is-Bwyllgor a sefydlwyd gan y Cyngor llawn i'r pwrpas hwnnw fydd penderfynu ar y Cais.

3.2 Cynhelir cyfarfod o'r Is-Bwyllgor ("y Cyfarfod") cyn gynted ag y bo modd i benderfynu ar y cais ar ôl derbyn Cais sy'n cydymffurfio gyda gofynion paragraff 2 uchod. Os oes angen, cynhelir y cyfarfod yn breifat gyda'r wasg a'r cyhoedd wedi eu cau allan.

3.3 Yn y Cyfarfod bydd adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno gan y Gyfarwyddwr Swyddoagaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ynghyd â chopi o'r Cais.

3.4 Mae'n bosib, os yw'r Ymgeisydd yn Aelod, y bydd ganddo ef (neu hi) ddiddordeb sy'n rhagfarnu a fydd yn golygu na chaiff ef (neu hi) fynychu'r cyfarfod. Gall yr ymgeisydd ystyried a gofyn am i'r Cais gael ei drin fel a ganlyn yr Is-Bwyllgor:-

3.4.1 fel Cais papur yn unig yn unig heb unrhyw sylwadau ar ran yr Ymgeisydd,

3.4.2 trwy gyflwyniad byr ar y Cais ar ran yr Ymgeisydd (er enghraifft gan eu cyfreithiwr) neu

3.4.3 trwy gyflwyniad byr gan yr Ymgeisydd ar yr amod, os oes gan yr Ymgeisydd ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn y Mater, ei fod/bod wedi cael caniatâd arbennig yn gyntaf gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn caniatáu iddo/iddi fynychu'r Cyfarfod a gwneud eu sylwadau yn unol â thelerau unrhyw ganiatâd o'r fath.

3.5 Os yw'r Ymgeisydd yn gofyn am yr hawl i wneud cyflwyniad (un ai ei hun neu gan gynrychiolydd) yn y Cyfarfod bydd raid dilyn y drefn isod:

3.5.1 Cyflwynir yr adroddiad ysgrifenedig i'r Cyfarfod,

3.5.2 Rhoddir caniatâd i'r Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad byr i gefnogi'r Cais,

3.5.3 Gall Aelodau (neu swyddog) ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu i gynrychiolydd yr Ymgeisydd a gellir eu hateb,

3.5.4 Gall yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd wneud datganiad byr i gloi,

3.5.5 Bydd Aelodau yn trafod y cais yn absenoldeb yr Ymgeisydd a'r cynrychiolydd,

3.5.6 Bydd Aelodau yn penderfynu ar y cais (yn amodol ar ddarpariaethau paragraff 3.7 isod) gyda golwg ar unrhyw fater, cyfyngiad neu amod sy'n codi o'r Gorchymyn neu o'r Polisi hwn ac a all fod yn berthnasol i amgylchiadau'r Cais.

3.5.7 Bydd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn derbyn rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad a wnaed cyn gynted ag y bo modd.

3.6 Ar yr amod bod yr Is-Bwyllgor yn fodlon bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad ar y cais, yna bydd yn penderfynu'r cais. Bydd raid cefnogi unrhyw benderfyniad gyda rhesymau a bydd raid cofnodi'r rhesymau hynny.

3.7 Os yw'r Is-Bwyllgor yn credu bod angen rhagor o wybodaeth cyn y gall benderfynu ar y Cais, bydd yn ceisio cael y wybodaeth honno gan yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd / chynrychiolydd yn y Cyfarfod. Onid yw'r wybodaeth honno ar gael yn ystod y Cyfarfod, bydd yr Is-Bwyllgor yn gohirio'r cyfarfod wedi iddo nodi a chofnodi'r wybodaeth sydd raid wrthi. Ailgynhelir y Cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl derbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

**B. Amodau a Chyfyngiadau ar Delerau unrhyw Indemniad a Roddir**

4.1 Bydd gan yr Is-Bwyllgor ddisgresiwn llwyr ynghylch telerau, natur, hyd ac/neu gyfyngiadau a roddir ar unrhyw indemniad i'r Ymgeisydd ac eithrio y bydd unrhyw indemniad a roddir i Aelod i amddiffyn honiadau o dorri'r Côd Ymddygiad yn destun cap o hyd at £20,000 (ugain mil o bunnoedd). Bydd unrhyw indemniad a roddir yn amodol ar delerau neu gyfyngiadau fel y gwêl yr Is-Bwyllgor yn ddoeth, a chan gymryd i ystyriaeth amgylchiadau pob mater unigol ac unrhyw gyngor a roddir gan y Cyfarwyddwr Swyddoagaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro yn y Cyfarfod.

4.2 Heb ragfarn i gyffredinolrwydd paragraff 4.1 uchod, gellir rhoi indemniad i'r Ymgeisydd yn amodol ar un neu ragor o'r cyfyngiadau isod:

4.2.1 Cap ar y swm ariannol a indemnir a bod y swm a delir yn cynnwys TAW,

4.2.2 Cyfyngiad ar gyfraddau a godir gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr fesul awr neu gyfraddau unrhyw berson arall y mae eu costau yn rhan o'r Cais,

4.2.3 Ni fydd symiau a indemnir ond yn cael eu talu i'r Ymgeisydd mewn rhandaliadau ariannol penodol, yn unol â meini prawf neu amodau a osodwyd gan yr Is-Bwyllgor fel rhan o'r penderfyniad ar y Mater,

4.2.4 Dim ond rhai costau arbennig fydd yn cael eu hindemnio,

4.2.5 NI fydd indemniad yn cael ei dalu (neu ran o indemniad) ond ar ôl cyflwyno i'r Cyngor anfonebau gyda derbynebion ar gyfer costau a nodwyd yn y Cais,

4.2.6 Rhaid cael caniatâd neu gyngor ymlaen llaw gan berson penodol (fel y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro neu gwnsler annibynnol) neu rhaid i'r Ymgeisydd gymryd unrhyw gam a benodwyd mewn perthynas â'r Mater cyn y telir y cyfan neu ran neu gyfran o'r indemniad.

**C. Telerau Cyffredinol yr Indemniad**

1. Yn amodol ar yr uchod ac unrhyw delerau, amodau neu gyfyngiadau a benderfynir neu a osodir mewn unrhyw achos penodol gan yr Is-Bwyllgor, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn indemnio pob aelod a swyddog o'r Cyngor yn erbyn hawliad, atebolrwydd neu golled ac/neu ddifrod mewn perthynas ag unrhyw weithred neu ddiffyg gweithredu gan unrhyw aelod neu swyddog a:-

(a) Mae wedi'i awdurdodi gan y Cyngor; neu

(b) Mae'n rhan o, neu'n codi o unrhyw bwerau a roddwyd neu ddyletswyddau a osodwyd ar yr aelod neu'r swyddog o ganlyniad i unrhyw swyddogaeth a weithredir gan yr aelod neu'r swyddog (p'un a ydyw'r aelod neu swyddog, wrth weithredu'r swyddogaeth honno, yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel aelod neu swyddog o'r Cyngor)

   (i) ar gais neu gyda chaniatâd diamwys y Cyngor; neu

   (ii) i ddibenion y Cyngor

Ac eithrio na thelir costau amddiffyn hawliad o'r fath a gafwyd cyn bod Cais am indemniad yn llwyddiannus.

Heb ragfarn i gyffredinolrwydd yr indemniad (uchod) mae'r indemniad yn ymestyn i gamau:-

(a) a gymerwyd dan bwerau dirprwyol;

(b) a gymerwyd yn bersonol dan unrhyw ddarpariaeth statudol benodol fel y Pennaeth Gwasanaeth Taledig, Prif Swyddog Cyllid, Swyddog Monitro, Deddf Llywodraeth Leol (Contractau) 1997.

(c) a gymerwyd mewn Partneriaethau, trefniadau cydweithio anffurfiol, sefydliadau elusennol, cwmnïau (beth bynnag fo'u cyfansoddiad) pan fo'r aelod neu'r swyddog yn gwasanaethu fel cynrychiolydd y Cyngor ar y cyrff hyn.

(I bwrpas yr indemniad mae "aelod" yn cynnwys pobl annibynnol a chyfetholedig sy'n eistedd ar Bwyllgor Safonau'r Cyngor).

## 2. Amodau a Chyfyngiadau sy'n berthnasol i'r Indemniad

### A. <u>Ewyllys Da</u>

Rhaid i aelod neu swyddog sy'n dibynnu ar yr indemniad:-

(i) Credu bod y weithred, neu'r methiant i weithredu, dan sylw o fewn pwerau'r Cyngor
neu

(ii) Pan fo'r weithred neu'r methiant i weithredu yn golygu cyhoeddi neu awdurdodi unrhyw ddogfen ac ynddi ddatganiad ynghylch pwerau'r Cyngor perthnasol, neu unrhyw ddatganiad yn dweud y cymerwyd rhai camau neu y cyflawnwyd rhai gofynion, yn credu bod cynnwys y datganiad hwnnw yn gywir; ac yn y naill achos neu'r llall, ei bod yn rhesymol i'r aelod neu'r swyddog gredu hynny ar y pryd pan y bu i'r aelod neu'r swyddog weithredu neu fethu gweithredu.

Bydd y Cyngor yn rhoi'r indemniad mewn perthynas â gweithred neu fethiant i weithredu os cesglir wedyn bod y weithred neu'r methiant i weithredu y tu draw i rym yr aelod neu'r swyddog dan sylw, ond dim ond i'r graddau bod yr aelod neu'r swyddog yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r diffyg gweithredu dan sylw o fewn grym yr aelod neu'r swyddog ar yr adeg pryd y bu i'r aelod neu'r swyddog fethu gweithredu.

**B. Adennill costau**

Os rhoddir indemniad i unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas ag amddiffyn unrhyw achos neu achosion troseddol sy'n honni y torrwyd y côd ymddygiad yna:-

(i) Mewn perthynas ag achos troseddol, os ceir yr aelod neu'r swyddog yn euog o drosedd, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu i'r yswirwyr unrhyw symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr mewn perthynas â'r achos hwnnw.

(ii) Os yw'r achos yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o dorri'r cod ymddygiad:-

(a) Os cesglir bod yr aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu os yw'r aelod wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, mae'r aelod yn cael ei atal/hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu ei (h)anghymwyso, yna bydd raid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor;

(b) Yn achos honiad ynghylch torri'r côd ymddygiad ac os cesglir bod aelod wedi methu a chydymffurfio gyda'r côd ymddygiad (neu wedi cyfaddef hynny) ac, o ganlyniad, os yw'r aelod yn cael cerydd neu'n cael rhyw gosb arall yn hytrach na'i atal/ hatal, ei atal/hatal yn rhannol neu anghymhwyso / hanghymwyso yna, os yw'r Pwyllgor Safonau yn credu bod hynny'n briodol, rhaid ad-dalu i'r Cyngor neu ei yswirwyr y symiau a wariwyd gan y Cyngor neu ei yswirwyr.

Os bydd angen gwneud ad-daliad bydd hyn yn cynnwys unrhyw TAW a dalwyd fel rhan o'r swm a indemniwyd.

**C. Difenwi**

Nid yw'r indemniad hwn yn ymestyn i aelod neu swyddog yn **gwneud** unrhyw honiad mewn perthynas â difenwad honedig yr aelod neu'r swyddog hwnnw.

**D. Swyddog Canlyniadau**

Nid yw'r indemniad hwn yn berthnasol i waith a swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau.

**E. Egwyddorion Cyffredinol**

(i) Bydd y Cyngor yn rhoi i'r aelod neu'r swyddog fynediad rhesymol a chymesur at weithwyr ac adnoddau'r Cyngor a chyfleusterau fel bod modd i'r swyddog unigol neu'r aelod unigon ymateb yn briodol i honiadau o atebolrwydd personol;

(ii) Bydd y Cyngor yn caniatáu cynrychiolaeth gyfreithiol i aelod neu swyddog ar wahân i ymgynghorwyr cyfreithiol y Cyngor ei hun (ac/neu ymgynghorwyr cyfreithiol yr yswirwyr) lle gall diddordebau'r Cyngor a'r unigolyn wrthdaro neu mewn amgylchiadau eraill lle cytunwyd rhwng y Cyngor a'r swyddog unigol neu'r aelod unigon bod cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn briodol.

(iii) Ni fydd y Cyngor yn ceisio adennill gan unrhyw aelod neu swyddog unigol unrhyw golledion a gafodd y Cyngor o ganlyniad i weithredu neu fethiant i weithredu gan yr aelod neu'r swyddog dan sylw ac eithrio:-

(a) Lle nad oedd yr aelod neu'r swyddog dan sylw yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r methiant i weithredu dan sylw o fewn ei rym ar yr amser pryd digwyddodd y weithred neu'r diffyg gweithredu, neu

(b) Lle roedd y weithred neu'r methiant i weithredu yn dramgwydd troseddol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | PWYLLGOR DEMOCRATAIDD |
| **DYDDIAD:** | 29ain TACHWEDD 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | DATBLYGIAD AELODAU |
| **ADRODDIAD GAN:** | SWYDDOG HYFFORDDIANT ADNODDAU DYNOL |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | L. AMY JONES (estyniad 2505) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I DDARPARU DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG 2023/2024 |

## 1. RHAGARWEINIAD

Pwrpas yr adroddiad yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau Etholedig 2023/2024 i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 2. DIWEDDARIAD AR RHAGLEN DATBLYGU 2023-2024

Fel y cadarnhawyd yn flaenorol, mae'r cynllun ar gyfer 2023-24 (Atodiad 1) wedi'i rannu i'r penawdau penodol canlynol; Hyfforddiant mandadol; Cyffredinol; Iechyd a Lles; Ar gais ac modiwlau e-Ddysgu. Gyda'r penawdau penodol hyn mewn golwg, rydym yn darparu diweddariad isod ar ddarpariad o hyfforddiant o fis Ebrill 2023 hyd yn hyn.

Cynigiwyd cyfanswm o 27 o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Aelodau Etholedig gan y Tîm Hyfforddi Adnoddau Dynol. Manylion llawn yn atodiad 2.

Gweler y wybodaeth ddiweddaraf isod am hyfforddiant y bernir ei fod yn mandadol (fel yr amlinellwyd gan y Gwasanaeth Democrataidd), lefelau o presenoldeb a gwybodaeth am gamau gweithredu i'r dyfodol;

| | | |
|---|---|---|
| Côd Ymddygiad | 35/35 | - |
| Iechyd a Diogelwch | 15/35 | Trefnwyd sesiynau pellach ym mis Chwefror 2024. |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 31/35 | Sesiwn ar gael ym mis Chwefror 2024. |
| Diogelu Data | 29/35 | Gallu mynychu sesiynau staff pan fydd dyddiadau ar gael. |
| Seiberddiogelwch | 33/35 | Rhannu fideo diogelwch seiber. |
| Diogelu | 24/35 | Trefnwyd sesiynau pellach ddiwedd Tachwedd 2023. |

## 3. CYFATHREBIADAU

Mae'r tîm hyfforddi yn parhau i weithio'n agos gyda'r gwasanaeth Democrataidd a Swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod i sicrhau bod y cynllun yn mynd i'r afael ag anghenion yr Aelodau Etholedig ac yn parhau i esblygu yn ôl y gofyn.

Mae gwahoddiadau i fynychu hyfforddiant yn parhau i gael eu rhannu drwy'r trefniadau arferol drwy gyfeiriad e-bost CefnogaethAelodau, yn ogystal â gwahoddiadau trwy apwyntiadau calendr electronig uniongyrchol.

Rhennir adroddiadau chwarterol gyda'r Gwasanaethau Democrataidd, sydd wedyn yn cael eu rhannu gyda Arweinwyr Grŵp. Bydd yr adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am hyfforddiant mandadol a'r holl hyfforddiant arall a gwblhawyd o fewn y chwarter penodol hwnnw.

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i ddarparu gwybodaeth am ddigwyddiadau hyfforddi sydd ar gael mewn fformat sy'n haws ei ddilyn. Yn ddiweddar rhannwyd hyn gydag Aelodau Etholedig (Atodiad 3) gyda chopïau caled hefyd ar gael i'w weld yn Lolfa'r Aelodau.

## 4. DULLIAU O DDARPARU

Ar y cyfan, mae'r sesiynau yn cael eu cynnal fel sesiynau ystafell ddosbarth, er bod yr opsiwn i gyflwyno sesiynau ar-lein yn dal i gael ei ystyried. Bydd y dull cyflwyno yn dibynnu ar y maes pwnc ar y cyd â pha ddull a gynigir gan y darparwr Hyfforddiant.

Mae Aelodau Etholedig yn parhau i gael cynnig y dewis o fynychu sesiwn o fewn diwrnod gwaith arferol neu sesiwn gynnar gyda'r nos i sicrhau bod ymrwymiadau'r Aelodau Etholedig yn cael eu hystyried ynghyd â chynyddu presenoldeb ar sesiynau.

Lle bo modd, ceisir hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir gwasanaeth cyfieithu i'r rhai sy'n dymuno gwrando trwy gyfrwng y Saesneg.

## 5. I GRYNHOI

Mae'r cynllun a gyflwynir yn ddogfen sy'n esblygu a bydd yn parhau i gael ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn, e.e. yn dilyn newidiadau mewn Deddfwriaeth; gweithdrefnau; Materion allanol ac ati. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r anghenion a nodwyd a sicrhau darpariaeth amserol.

## 6. ARGYMHELLIAD

- I nodi cynnwys yr adroddiad.

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Eich Ffordd Ymlaen
Your Way Forward
Cefnogi Eich Dyfodol – Supporting Your Future

Tudalen 74

# AELODAU ETHOLEDIG

## *CYNLLUN DYSGU A DATBLYGU*

**MAI 2023 – MAWRTH 2024**

*Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.*

| | TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Mandadol** | | | | |
| | **CÔD YMDDYGIAD** | • Trosolwg o trefniadau Democrataidd; *h.y. Mewnbwn mewn cyfarfodydd; rheolau a rheolau sefydlog, ayyb* | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb ) | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| | **CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT** | • Deallt y rôl Aelodau Etholedig o ran Cydraddoldeb yn y broses o wneud penderfyniadau;<br>• Ymwybyddiaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| Tudalen 75 | **MATERION DIOGELU –** *PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED* | Trais Domestig / Trais yn erbyn Merched<br>• Caethwasiaeth Fodern<br>• Rhwystro<br>• Ymwybyddiaeth Diogelu | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **DELIO GYDA DATA PERSONOL / GWYBODAETH PERSONOL:** *EICH CYFRIFOLDEBAU FEL AELOD ETHOLEDIG* | • Ddeallt rhwymedigaeth cyffredinol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018<br>• Deallt gofynion penodol y Ddeddf<br>• Deallt sut i gydymffurfio a'r Ddeddf. | Modiwl E-Ddysgu<br>*(bob 3 mlynedd)*<br>**ac**:<br>Cyflwyniad: (rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) - Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| | **IECHYD A DIOGELWCH –** *ARWAIN YN DDIOGEL* | • Deallt gofynion cyfreithiol y Cyngor o ran Iechyd a Diogelwch, o safbwynt Aelodau Etholedig<br>• Trosolwg cyffredin o Diogelwch Personol i Aelodau | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb) | Holl Aelodau Etholedig |
| | **SGILIAU CADEIRIO** | • Sut i arwain a chyfrannu at gynnal Pwyllgorau Effeithiol | Cyflwyniad: (rhithiol)<br>*i'w hadnewyddu pob 2 flynedd*<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Cadeiryddion ac Îs-gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau |
| | **CYNLLUNIO A THRWYDDEDU, LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** | • Hyfforddiant perthnasol yn ôl yr angen | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu a Llywodraethu ac Archwilio |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN CANFYDDNADWY |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **SGILIAU TGCH I DDECHREUWYR** | • Cynorthwyo Aelodau Etholedig sydd â trafferthion yn defnyddio offer TGCh | I fyny at tair o sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **SGILIAU TGCH CANOLOG** | • Datblygu sgiliau TGCh Aelodau | Sesiynau wyneb-i-wyneb<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFLWYNIAD I NEWID HINSAWDD** | | Darparw(y)r Mewnol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **DIFENWAD** | • Sut i osgoi ac/neu lliniaru yn erbyn unrhyw cais/ceisiadau difenwad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Mewnol | Holl Aelodau Etholedig |
| **RHEOLAETH CYLLID A THRYSORLYS** | • Dealltwriaeth o faterion ariannol<br>• Gosodiad Cyllided, ayyb. | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog Adran 151 / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **DELIO GYDA'R WASG** | • Sesiwn ymarferol sy'n darparu Aelodau Etholedig gyda profiad o cynnal cyfweliadau radio a theledu<br>• Siawns i Aelodau gael ffug-gyfweliadau ac ymarfer | Cyflwyniad â cyfweliadau-ffug, a copïau i gadw<br>(wyneb i wyneb)<br><br>Swyddogion Perthnasol / Darparwyr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ychwanegol** | | | |
| **YMWYBYDDIAETH DIWYLLIANOL SIPSIWN A THEITHWYR** | • Hyfforddiant Rhagarweiniol ar weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru | Cyflwyniad â gweithgaredd (wyneb-i-wyneb)<br><br>Tai/Darparwr Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **SESIYNAU BRIFFIO** | • Materion Pwnc Perthnasol a Chyfredol yn cael eu cyflwyno a'u trafod | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **Iechyd a Llesiant** | | | |
| **DIOGELWCH PERSONOL / DELIO Â SEFYLLFEYDD ANODD** | • Trosolwg o sgiliau a thechnegau gellid ei mabwysiadu i sicrhau diogelwch personol, ac i allu delio â sefyllfaoedd heriol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **IECHYD A LLEISIANT –** *CYFFREDINOL AC YMWYBYDDIAETH* | • Darparu dealltwriaeth o:<br>- Hydwythdedd<br>- Cydbwysedd bywyd gwaith<br>- Rheoli Straen<br>- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | Modiwlau e-Ddysgu ar gael<br><br>Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **YMWYBYDDIAETH MENOPOS** | • Trosolwg i'r rhai sy'n profi Menopos neu'n dymuno codi eu hymwybyddiaeth | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **YMWYBYDDIAETH OFALGAR** | • Sesiynau byr i drafod effaith straen ar y corff ac awgrymiadau ymlacio | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |

| TEITL | PWNC / MAES GWAITH | CYFRWNG | CARFAN WEDI'I NODI |
|---|---|---|---|
| **Hyfforddiant Ar Gais** | | | |
| **SGILIAU DATBLYGU TGCH** | • Sesiynau galw-heibio / Un-i-Un<br>• Cynorthwyo â Sgiliau TGCH / Meddalwedd penodol | Wyneb-i-wyneb<br><br>Swyddog(ion) Perthnasol / Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg |
| **CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** | • Deall sut i wneud i'r Cyfryngau Cymdeithasol weithio i Aelodau Etholedig;<br>• Beth i'w rannu a'i beidio;<br>• Sut i beidio ymddwyn ar Gyfryngau Cymdeithasol;<br>• Elfennau Bwlio a Diogelwch Personol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Allanol | Holl Aelodau Etholedig |
| **CRAFFU** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Craffu<br>• Dealltwriaeth o egwyddorion Craffu effeithiol | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparwr Allanol | All Elected Members |
| **ARCHWILIAD** | • Cyflwyniad i weithdrefnau Archwiliad | Cyflwyniad:<br>(rhithiol a/neu wyneb-i-wyneb)<br><br>Darparw(y)r Mewnol / Allanol | Holl Aelodau Etholedig |

## MODIWLAU E-DYSGU

*Mae gan Aelodau Etholedig fynediad hyblyg at E-Ddysgu. Gweler isod fanylion y meysydd pwnc presennol sydd ar gael.*

| Modiwlau Hanfodol | Datblygu Aelodau | Iaith Cymraeg |
|---|---|---|
| - Ymwybyddiaeth Seibr **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Cynllunio at Argyfwng i Aelodau **(gloywi i'w gytuno ar)**<br>- Cadeirio Cyfarfodydd yn Effeithiol<br>- Atal **(i'w hadnewyddu yn ôl yr angen)**<br>- Caethwasiaeth Modern **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)**<br>- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol **(i'w hadnewyddu pob 3 mlynedd)** | - Moeseg a Safonau<br>- Siarad Cyhoeddus a Gweithio gyda'r Cyfryngau<br>- Rhianta Corfforaethol<br>- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)<br>- Craffu Effeithiol<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) | - Safonau'r Cymraeg<br>- Cymraeg yn y Gweithle (1)<br>- Cymraeg yn y Gweithle (2) |
| **Llesiant** | **Iechyd a Diogelwch** | **Cyrsiau Corfforaethol** |
| - Iechyd a Lles yn yr Awdurdod | - Defnyddio Offer Sgriniau Arddangos (OSA) yn Ddiogel - Asesiad Gweithle | - *Y Gronfa Ddysgu: Bwcio ar-lein* |

**Gellir defnyddio nifer o'r modiwlau e-Ddysgu: i ategu sesiynau dosbarth/*hybrid* a gynhelir; fel modiwlau adnewyddu yn ôl yr angen; eu defnyddio fel darpariaeth Datblygiad Personol ychwanegol i Aelodau.**

**Noder fod y cynllun hon yn un esblygiadol, ac felly mae'n debygol bydd hyfforddiant ychwanegol yn cael ei gynnwys yn ystod y flwyddyn er mwyn bodloni unrhyw newidiadau mewn anghenion/blaenoriaethau. Pe bae amgylchiadau annisgwyl tu hwnt i'n rheolaeth yn codi, mae'n bosib bydd angen diwygio rhai o'r dyddiadau/amseroedd nodir uchod.**

**Bydd manylion y sesiynau hyfforddiant yn cael ei anfon i Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg (yn ôl yr angen) fel ffurf e-bost/apwyntiad calendr.**
**Rhoddir o leiaf 7 diwrnod o rybudd, lle'n ymarferol bosib, drwy CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru**

**Cynnig hyfforddiant a datblygiad i Aelodau Etholedig yn 2023**

**Training and Development offered to Elected Members in 2023**

| Teitl y Cwrs | Fynychwyd / Attended | Gwahoddwyd / Invited | Course Title |
|---|---|---|---|
| **Côd Ymddygiad** | **1** | **1** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **2** | **2** | **Code of Conduct** |
| **Côd Ymddygiad** | **3** | **3** | **Code of Conduct** |
| **Cyfansoddiad y Cyngor** | **1** | **1** | **Council Constitution** |
| **Delio gyda'r Wasg** | **3** | **8** | **Dealing with the Press** |
| **Diogelu i Aelodau** | **6** | **14** | **Safeguarding for Members** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **3** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **2** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **2** | **3** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Sesiwn Sgiliau TGCh 1-i-1** | **0** | **1** | **1-to-1 ICT Skills Session** |
| **Ymwybyddiaeth Ofalgar** x2 **(***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Mindfulness Awareness** x2 **(***open to all***)** |
| **Ymwybyddiaeth Menopos (***agored i bawb***)** | **0** | **35** | **Menopause Awareness (***open to all***)** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **1** | **2** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Cadeirio** | **3** | **3** | **Chairing Skills** |
| **Sgiliau Craffu Effeithiol** | **1** | **1** | **Principles of Effective Scrutiny** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **11** | **26** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **4** | **21** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **19** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cyflwyniad i Newid Hinsawdd** | **3** | **12** | **Introduction to Climate Change** |
| **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** | **0** | **4** | **Equality, Diversity & Inclusion** |
| **Diogelu Data** | **6** | **13** | **Data Protection** |
| **Diogelu Data** | **8** | **12** | **Data Protection** |
| **Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau** | **IG / TBC** | **12** | **Safeguarding Awareness for Members** |
| **Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** | **IG / TBC** | **35** | **Gypsies and Travellers' Cultural Awareness** |

# Cynllun Datblygu Aelodau Etholedig

**2023/24**

## Tachwedd 2023

**15/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**)** **(*Cymraeg*)** - 13:00-14:30 - *Zoom*

**16/11/23 - Diogelu Data i Aelodau (*Mandadol**)** **(*Saesneg*)** - 18:00-19:30 - *Zoom*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 09:30-12:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**20/11/23 - Cyf. i Newid Hinsawdd** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**27/11/23 - Ymwybyddiaeth Diogelu i Aelodau (*Mandadol**)** - 18:00-19:00 - *Zoom*

**29/11/23 - Digwyddiad Llesiant a Gorflino** - 13:30-15:00 - *Siambr y Cyngor, Pencadlys*

**30/11/23 - Ymwybyddiaeth Diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr** - 13:30-15:30 - *Zoom*

## Rhagfyr 2023

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 09:30-12:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

**04/12/23 - Twyll a Llygredd i Aelodau** - 17:30-19:30 - *'Yst. Hyfforddiant 1', Pencadlys*

## Ionawr 2024

## Chwefror 2024

**06/02/24 - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (*Mandadol**)** - 09:30-12:30 - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - TBC - *Zoom*

**19/02/24 - Iechyd a Diogelwch i Aelodau (*Mandadol**)** - 17:30-20:00 - *'Yst. Hyfforddiant 1'*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 09:30-11:30 - *Zoom*

**21/02/24 - Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth** - 17:30-19:30 - *Zoom*

***mandadol ar gyfer Aelodau sy'n rhagor**

## Mawrth 2024

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol** - 09:30-11:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

**21/03/24 - Grwp 6 - Trais yn erbyn menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol** - 17:30-19:30 - 'Yst. Hyfforddiant 1'

## Dyddiadau i'w gadarnhau:

**Cynllunio a Thrwyddedu (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Cyllid a Rheoli'r Trysorlys (*Mandadol i Aelodau dynodedig*)**

**Sgiliau TGCh Cyffredinol**

**Arwain yn Ddiogel i Aelodau**

**Cefnogaeth Aelodau Etholedig**
CefnogaethAelodauEtholedig@YnysMon.llyw.cymru

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 29 Tachwedd 2023 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2024-2025 |
| **Adroddiad gan:** | Dyfan Sion<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ystyried cynigion drafft y Panel ar gyfer 2024 i 2025 ac ymateb i'r ymgynghoriad |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif Gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Awdurdodau Tân ac Achub
- Cyd-bwyllgorau Corfforaethol

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Bydd y Panel yn ymgynghori tan 8 Rhagfyr ar ei gynigion drafft ar gyfer 2024 i 2025, yn ogystal â chwech o gwestiynau penodol era – gweler atodiad 1.

Bydd yr Adroddiad Blynyddol terfynol yn cael ei gyhoeddi erbyn 28 Chwefror 2024 ac yn weithredol o Ebrill 2024.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Cynigion drafft y Panel ar gyfer 2024-2025

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig yn 2023-2024 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 23 Mai 2023) ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cynigion drafft ar gyfer 2024-2025:

| **Rhestr Taliadau i Aelodau** | **2023-2024** | **2024-2025** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £17,600 | **£18,666** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £56,100 | **£59,498** |
| Dirprwy Arweinydd | £39,270 | **£41,649** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £33,660 | **£35,699** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Cyngor | £26,400 | **£27,999** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd Grwp yr Wrthblaid fwyaf | £26,400 | **£27,999** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £21,340 | **£22,406** |

Mae'r Panel yn gofyn am farn ynghylch eu cynnig y dylid cynyddu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog etholwyr – gweler cwestiwn 1 yn atodiad 1.

Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r cyflogau a'r lwfansau a delir i aelodau etholedig.

### 2.2 Taladau i aelodau cyfetholedig

Ar hyn o bryd, dylai aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod, ond mae'r Panel wedi nodi newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddiant ar-lein.  Mae rhain yn aml yn fyr ac mae pwyllgorau'n tueddu i gyfarfod yn fwy rheolaidd.

Ystyriwyd newid i gyfradd fesul awr. Byddai hyn yn adlewyrchu'n well y ffyrdd newydd o weithio a'r oriau a weithiwyd mewn gwirionedd.  Fodd bynnag, cydnabu'r Panel na fyddai hyn bob amser yn briodol o bosib, yn enwedig ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb y disgwylir iddynt parhau sawl awr.

Mae'r Panel felly'n cynnig y dylid rhoi hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd fesul awr, lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

| **Rôl** | **Fesul awr** | **Hyd at 4 awr** | **4 awr a throsodd** |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | **£33.50** | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | **£29.75** | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau, pwyllgorau craffu addysg a throsedd ac anrhefn a phwyllgorau archwilio | **£26.25** | £105 | £210 |
| Cynghorwyr tref a chymuned sy'n aelodau o bwyllgorau safonau prif gynghorau | **£26.25** | £105 | £210 |

Mae cwestiwn 2 yn atodiad 1 yn ymwneud â'r cynnig uchod.

### 2.3 Taliadau eraill

Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill o ran taliadau, felly mae penderfyniadau 2023-2024 yn dal i sefyll mewn perthynas â'r canlynol :

- Teithio a chynhaliaeth
- Gofal a chymorth personol
- Absenoldeb salwch
- Cyd-bwyllgorau Corfforedigl
- Cynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith
- Cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi

## 3.0 Annog teithio cynaliadwy

Mae'r Panel yn ymwybodol bod cynlluniau gan llawer o gyrff yng Nghymru sy'n annog teithio cynaliadwy.  Maent wedi cynghori y dylai aelodau etholedig, os oes modd, gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

Mae cwestiwn 3 yr ymgynghoriad yn gofyn am enghreifftiau o arferion da neu syniadau eraill ynglŷn â sut y gallai'r Panel ddefnyddio ei bwerau i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith aelodau.

## 4.0 Ymwybyddiaeth o hawliau

Mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig lleol o'r taliadau y maent yn gallu eu hawlio. Mae'n dymuno clywed a yw hyn yn broblem sylweddol. Felly, mae cwestiwn 4 yr ymgynghoriad yn cynnwys cyfres o gwestiynau sydd wedi'u hanelu at aelodau unigol.

## 5.0 Cyhoeddi gwybodaeth am daliadau

### 5.1 **Cynghorau tref a chymuned**

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bob cyngor gwblhau datganiadau blynyddol o'r taliadau a wnaed i gynghorwyr unigol, i'w cyflwyno i'r Panel a'u cyhoeddi ar ei wefan.

O ran costau gofal a chymorth personol, mae'n ddigonol i bob sefydliad restru'r cyfansymiau a dalwyd a chyfanswm nifer y derbynyddion. Eleni, mae'r Panel yn teimlo y byddai'n briodol i ymestyn hyn i'r taliadau gorfodol i aelodau cynghorau tref a chymuned. Byddai hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng atebolrwydd cyhoeddus a phreifatrwydd unigolion. Mae'r Panel hefyd yn gobeithio y bydd yn annog pawb i hawlio'r taliadau y mae ganddynt yr hawl i'w derbyn.

.

### 5.2 **Prif gynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub**

Mae'r Panel yn ystyried caniatau cyfuno costau teithio a chynhaliaeth y cyrff uchod mewn adroddiadau i'r dyfodol.

Mae'r Panel yn awyddus i glywed barn am y cynigion uchod – gweler cwestiwn 5 a chwestiwn 6.

## 6.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor:

- ystyried penderfyniadau drafft y Panel ar gyfer 2024-2025, a'r cwestiynau ychwanegol
- awdurdodi swyddogion i ymateb i'r ymgynghoriad yn unol â thrafodaethau'r Pwyllgor.

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2024-2025:
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol drafft 2024 i 2025 | LLYW.CYMRU

**Cwestiwn 1 - Cynyddu cydnabyddiaeth ariannol drwy ddefnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE)**

Mae'r Panel yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau presennol ar gyllid cyhoeddus ac effaith ei benderfyniadau ar gyllidebau Prif Awdurdodau. Mae'r Panel hefyd yn ystyriol o'n Nodau a'n Hamcanion i gynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol teg a rhesymol i gefnogi aelodau etholedig ac annog amrywiaeth mewn cynrychioliaeth. Felly, rydym yn cynnig y dylid cynyddu eu cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar enillion cyfartalog eu hetholwyr.

**A ydych chi'n credu bod y Panel wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng fforddiadwyedd a chydnabyddiaeth ariannol ddigonol i gynrychiolwyr?Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych   unrhyw awgrymiadau eraill?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cwestiwn 2 – Hyblygrwydd lleol ar gyfer taliadau i unigolion cyfetholedig**

Mae'r Panel wedi cael tystiolaeth y byddai'n fwy costeffeithiol ac yn decach i roi hyblygrwydd o ran talu'r rhai sy'n aelodau cyfetholedig o bwyllgorau Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Felly, mae'r Panel yn cynnig y dylai fod hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod neu ddefnyddio cyfradd yr awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

**A ydych yn cytuno â'r cynnig hwn?Os nad ydych yn cytuno, a oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cwestiwn 3 – Annog teithio cynaliadwy**

Hoffai'r Panel sicrhau ein bod yn cefnogi cynaliadwyedd amgylcheddol yn ein penderfyniadau ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol. Rydym yn ymwybodol bod cynlluniau mewn llawer o gyrff yng Nghymru sy'n annog teithio cynaliadwy ac rydym wedi cynghori y dylai aelodau etholedig, os oes modd, gael eu hannog i gymryd rhan yn y cynlluniau hyn.

**A oes gennych unrhyw enghreifftiau da o arferion da neu syniadau eraill ynglŷn â sut y gallem ddefnyddio ein pwerau i annog mwy o deithio cynaliadwy ymhlith aelodau?**

| | |
|---|---|
| Oes | ☐ |
| Nac oes | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Unrhyw sylwadau ychwanegol

| |
|---|
| |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cwestiwn 4 – Ymwybyddiaeth o hawliau cynrychiolwyr**

Mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith aelodau etholedig lleol o'r taliadau y maent yn gallu eu hawlio. Hoffem glywed a yw hyn yn broblem sylweddol, ac os felly, byddwn yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhellach, drwy dargedu meysydd lle y gall hyn fod yn broblem.

**Nodwch pa fath o gorff rydych yn ei wasanaethu (dewiswch bob un sy'n gymwys):**

| | |
|---|---|
| Prif Gyngor | ☐ |
| Cyngor Cymuned neu Gymuned Tref | ☐ |
| Awdurdod Tân ac Achub | ☐ |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol | ☐ |

**Beth yw eich statws?**

| | |
|---|---|
| Aelod | ☐ |
| Aelod Cyfetholedig | ☐ |
| Arall | ☐ |

**A ydych chi'n gwybod bod gennych hawl i rai neu bob un o'r canlynol?**

- Cydnabyddiaeth ariannol am eich rôl

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |

- Pensiwn (prif gynghorau yn unig)

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- Ad-daliad am dreuliau

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Ad-daliad am gyfrifoldebau gofalu

Ydw ☐
Nac ydw ☐

- Taliadau absenoldeb teuluol (Prif Gynghorau yn unig)

Ydw ☐
Nac ydw ☐

**Pa gamau y mae eich cyngor neu'ch awdurdod yn eu cymryd i sicrhau bod ei aelodau etholedig a'i aelodau cyfetholedig yn ymwybodol o'r symiau y mae ganddynt hawl iddynt?**

| |
|---|
| |


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

**Cwestiwn 5 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref**

Mae'n ofynnol i Gynghorau Cymuned a Thref gyflwyno datganiad blynyddol o daliadau i'r Panel erbyn 30 Medi bob blwyddyn, a chyhoeddi hyn ar eu gwefan hefyd. Mae'r Panel wedi darparu templed o ffurflen i glercod ei defnyddio. Mae'r Panel wedi trafod ac ystyried newid y gofynion ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref wrth gyflwyno eu ffurflen datgan taliadau. Nod y Panel yw symleiddio gweinyddiaeth ac annog Cynghorau i sicrhau bod yr holl daliadau gorfodol yn cael eu gwneud i aelodau unigol.

Mae'r Panel yn cynnig, o fis Medi 2024, bod angen i'r ffurflenni ddangos cyfanswm y symiau a dalwyd mewn perthynas â'r taliadau gorfodol a grybwyllwyd uchod. Dyna'r cyfraniad o £156 at gostau gweithio gartref, y lwfans traul cyfradd sefydlog o £52 a'r costau teithio a chynhaliaeth a dalwyd.

Mae hyn yn dod â'r rhain yn unol ag adrodd costau gofal a lwfansau cymorth personol.

A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Beth yw'r rhesymau dros eich barn?

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 6 – Cyhoeddi symiau wedi'u cyfuno ar gyfer cyrff eraill**

Mewn adroddiadau yn y dyfodol, rydym yn ystyried caniatáu cyfuno costau teithio a chynhaliaeth aelodau prif gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub, a byddai gennym ddiddordeb yn eich barn.

**A ydych chi'n cytuno y gall y ffigurau hyn gael eu cyhoeddi fel cyfanswm i'r holl aelodau yn hytrach nag yn unigol?**

| | |
|---|---|
| Ydw | ☐ |
| Nac ydw | ☐ |
| Dim barn | ☐ |

Beth yw'r rhesymau


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

This page is intentionally left blank